

Llais Ogowan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 480 • Medi 2017 • 50c

Bron â chipio cadair y brifwyl ym Môn

Roedd Annes Glynn yn y grŵp o bump ar frig cystadleuaeth y Gadair ym mhrifwyl Ynys Môn eleni ac mae ardal Dyffryn Ogwen yn ei llongyfarch yn gynnes am ei champ ac yn ymfalchïo yn ei llwyddiant.

Talu teyrnged i'r diweddar Athro Gwyn Thomas a wna yn yr awdl ac mae'n "sôn am hen ddyhead cenedl y Cymry am arwr i'w harwain". Ei ffugenw yn y gystadleuaeth oedd 'Am Ryw Hyd' ac mae wedi seilio'i gwaith ar rai o gerddi mwyaf adnabyddus Gwyn Thomas. Roedd y beirniaid yn cyfeirio at ei gwaith fel "casgliad" yn hytrach nag un cyfanwaith o awdl.

Meddai Annes: "Awdl foliant i Gwyn Thomas ydi hi ond mae hi hefyd yn ystyried y modd yr ydan ni fel cenedl wedi edrych i gyfeiriad arwr delfrydol i'n harwain ni allan o'n trybini dros y canrifoedd. Mae'r ffaith fod Gwyn wedi astudio a thafu goleuni ar yr union elfen hon yn yr Hen Ganu ac mewn canu ddiweddarach, yn thema sy'n clymu'r cyfan ynghyd."

Dyweddodd Yr Athro Peredur Lynch yn ei feirniadaeth, 'Nid bardd y cynganeddu trystfawr a chyhyrog yw *Am Ryw Hyd* ond bardd y myfyrdod tawel a cheir ganddo lawer o berlau.'

Credai Huw Meirion Edwards bod gwaith Annes yn dangos tystiolaeth o waith 'crefftwr cymen a luniodd deyrnged sy'n ffrwyth myfyrdod deallus ar y dyn (Gwyn Thomas) a'i waith.'

Mae Emyr Lewis yn dyfynnu rhan o'i gwaith lle mae'n dweud am ei harwr,

Hi, ieithwedd y llechweddau
Yw'r wên a'r llais sy'n parhau'n
Y ddawn dweud, dy ruddin di,
A lliw achau bro'r llechi.
Olion glas, dalennau glân,
Llên wâr yn llinyn arian.

Ychwanegodd, 'ar ei orau (fel yn yr enghraifft uchod) mae'n rhugl ac yn drawiadol,' ac fel y sylwodd Huw Meirion Edwards mae'r Gadair 'o fewn cyrraedd *Am Ryw Hyd*.'

Gobeithio'n fawr y gwelwn Annes Glynn yn eistedd yng nghadair y Brifwyl cyn bo hir.

Bu wythnos yr Eisteddfod yn un i'w chofio i Annes gan iddi hefyd ennill ar yr englyn a derbyn Tlws Coffa Dic yr Hendre i'w ddal am fwyddyn. Y testun eleni oedd 'Mam'. Ffugenw Annes yn y gystadleuaeth oedd Elsa a chyhoeddwn ei champwaith yn ei gyfanrwydd.



(Llun Annes Glynn gan Panorama)

Annes Glynn a ddaeth yn uchel yn y rhestr deilyngdod am gadair Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

Yr Englyn

Mam

Ei dawn sy'n siôl amdani, gair addfwyn
yn gwtsh greddfoll ynddi,
fel ei hanwes drwy dresi
aur ei dol. Tair oed yw hi.
Elsa

Yn ei feirniadaeth ar yr englyn dywedodd y Prifardd John Gwilym Jones, 'Annisgwyl hollol oedd englyn *Elsa*.' Ychwanegodd, 'Mae doniau mamol y ferch fach fel siôl amdani yn ei hamgylchynu'n gynnes,' ac yna â yn ei flaen i ddweud bod 'holl adnoddau gofal mam' yn y ferch fach yn ifanc iawn. 'Neges yr englyn yw bod natur y fam wedi ei phlannu yn anian y ferch. Ac y mae pob cymal yn yr englyn yn talu am ei le,' meddai.

Yn wreiddiol o Frynsiencyn, Môn, ymgartrefodd Annes yn Rhiwlas ers dros ddeugain mlynedd. Dechreuodd ddysgu'r cynganeddion mewn dosbarth a gynhaliwyd gan Karen Owen yng Nghanolfan Cefnfaes a bu'n aelod o dîm Talwrn yr Howgets am rai blynyddoedd. Yn gynharach eleni cyhoeddodd Barddas ei chyfrol gyntaf o farddoniaeth, sef *Hel Hadau Gwawn*.

Cyflawnodd Annes Glynn ddwy gamp fawr ym Môn eleni felly ac mae cael un mor arbennig o ddawnus yn trigo yn ein plith yn rhywbeth y gallwn oll ymhyfydu ynddo. Da iawn wir Annes!

Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

☎ 07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

☎ 601592

fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard

☎ 01248 602119

orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH

☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygydd y Mis

Golygydd rhifyn y mis hwn
gan Derfel Roberts

Y golygydd ym mis Hydref fydd
Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG.
01248 600297
Ebost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 4 Hydref

os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 19 Hydref**, yng
Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916

Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

SPAR, Bethesda

Siop y Post, Rachub

Bangor

Siop Forest

Siop Menai

Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon

Palas Print

Porthaethwy

Awen Menai

Rhiwlas

Garej Beran

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

Dyddiadur y Dyffryn

Medi

15 a 16 Gŵyl Mynydda. Neuadd Ogwen.

16 Bore Coffi Clwb Camera. Cefnfaes.

10.00 - 12.00.

22 Dathlu Dydd Owain Glyndwr.

Neuadd Ogwen am 7.00

23 Bore Coffi Capel Jerusalem.

Cefnfaes. 10.00 - 12.00.

25 Te Bach. Ysgoldy Carmel. 2.30 - 4.00

26 Darlith : Cloddiad Hanesyddol Cell

Sant Tegai.... Neuadd Talgai am 7.00.

27 Clwb Llanllechid. Festri Carmel.

30 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.

Cefnfaes. 10.00 - 12.00.

Hydref

04 Theatr Bara Caws. "Dim Byd Ynni".

Neuadd Ogwen am 7.30

05 Sefydliad y Merched Carneddi.

Ffotograffiaeth. Cefnfaes am 7.00.

07 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.

10.00 - 12.00.

09 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen.

Festri Jerusalem am 7.00.

13 Noson yng nghwmni'r Welsh

Whisperer. Clwb Criced am 8.00

14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.

9.30 - 1.00.

17 Cyfarfod Blynyddol Partneriaeth

Ogwen. Gorffwysfan am 7.00

19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

20 Trydedd Darlith Goffa Archesgob

John Williams. Eglwys Sant Tegai

am 7.00.

21 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn

Ogwen. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r
gloch a hanner dydd

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Awst

- £30.00 (160) Audrey Griffith,
Talgarreg, Llandysul.
- £20.00 (111) Gwen Davies,
Tanysgafell,
Bethesda.
- £10.00 (1) Angharad Hughes,
14 Ffordd Pant,
Bethesda.
- £5.00 (137) Joan E. Griffith,
15 Glan Ffrydlas,
Bethesda.

Gwobrau Medi

- £30.00 (11) Orina Pritchard,
7 Rhos y Nant, Bethesda.
- £20.00 (40) Barbara Owen,
6 Rhos y Nant,
Bethesda.
- £10.00 (172) Wendy Jones,
Bron Arfon, Rachub.
- £5.00 (123) Dilys Jones, Pencilan,
Cefn y Bryn,
Bethesda.

Rhoddion i'r Llais

- £20.00 Er cof am Delwyn.
- £10.00 Er cof am Raymond Williams
(3 Rhes Douglas gynt) a
fuasai'n 78 mlwydd oed ar 16
Medi, oddi wrth Barbara a'r
teulu.
- £10.00 Miss J. B. Williams,
Porthaethwy.
- £10.00 Er cof am Mrs Blodwen Gibbs.

Diolch yn fawr.

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan



Englynwr gwydych arall



John Ffroncon ynghanol ei gynefin.

Un â'i wreiddiau yn Nyffryn Ogwen oedd enillydd cystadleuaeth yr Englyn Crafog (neu ddigri) hefyd. Daeth John Ffroncon Griffith o Abergele, ond o Fethesda gynt, yn gyntaf gyda'i englyn i MEDRA sef i bobl Ynys Môn (Gwlad y Medra.)

Dyma ei englyn crafog buddugol;

MEDRA

Nid oes ball ar eu gallu, na'u tebyg
(yn eu tyb) trwy Gymru,
Hwy yw'r llon Fonwysion hy
A fwydrant fyth am fedru.

Yr Hollwybodus

Gynt o Dŷ'r Ysgol Glanogwen, Bethesda, ac yn ymfalchïo'n fawr yn hynny, mae John wedi ymgartrefu ers blynyddoedd bellach yn Abergele. Gwahoddwyd ef i draddodi Darlith Flynnyddol Llyfrgell Bethesda yn 1981, ac fe'i cyhoeddwyd yn llyfryn y flwyddyn ganlynol. Ei destun oedd 'Crwydro', ac ynddi mae'r son am ei brofiadau yn crwydro Eryri a'r tu hwnt.

Mae'n englynwr dawnus, ac mae wedi ennill sawl gwobr gyntaf mewn eisteddfodau ledled Cymru gan gynnwys

sawl buddugoliaeth yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Yn ddiweddar, cyhoeddodd gasgliad o'i gynhyrchion dan y teitl 'Englynion'.

Mae'n briod â Dilys, yn dad i Llinos a Rheinallt, yn dad yng nghyfraith i Alaw, ac yn daid i Elinor ac Anna.

Dyn yr awyr agored ydy John, ac mae ei ddi-ddordebau'n adlewyrchu hynny. Bydd yn cerdded yn lleol bob dydd - ac ymhellach draw, yn y brynau neu ar hyd y glannau, bob penwythnos gyda ffrindiau agos. Bydd yn treulio oriau difyr yn yr ardd, a themlo'n rhwystredig pan na fydd pethau'n tyfu'n ôl y disgwyl. Mae'n bysgotwr brwd ac yn ymweld yn gyson â'r ardal i fwynhau llonyddwch glannau'r llynnoedd ac mae'n adnabod llynnoedd ac afonydd Dyffryn Ogwen yn dda, ond erbyn hyn yn mynd i'r Brenig gan amlaf.

Bu'n bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Emrys ap Iwan, ac yna yn Ysgol y Creuddyn am rai blynyddoedd, ond yn ei eiriau ef ei hun, "diolch byth dw i wedi cael gwared o'r marcio di-ddiwedd ers blynyddoedd".

D.R.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Llongyfarchiadau i'n pobl ifanc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau a dymuniadau gorau i'r plant sy'n symud ysgol y tymor hwn.

Gwaeledd

Meddyliwn am Mrs Norma Jones, Pen y Graig sydd ym Mryn Seiont Newydd a'r teulu sy'n ymweld â hi'n gyson.

Dydy Mrs Edwards, 5 Gernant ddim wedi bod yn dda ychwaith ac anfonwn ein cofion

ati hithau.

Mae Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn yn gaeth i'w chartref a chofion atoch chithau hefyd.

Apêl

Hoffwn i ddarllenwyr Llais Ogwan gysylltu â mi fel y gohebydd lleol er mwyn cynnwys eitemau o newyddion yn y papur bro. Mae'n anodd i un person wybod am bopeth sy'n digwydd yn y cylch. Diolch.

Ysgol Abercaseg

Cywiriad

Yn rhifyn Gorffennaf o'r Llais adroddwyd bod Cwmni'r Frân Wen wedi dod i'r ysgol i berfformio sioe bypedau Bwystflod Bach. Deallwn erbyn hyn mai cynhyrchiad Cwmni Theatr Bara Caws oedd hwn yn hytrach na Chwmni'r Frân Wen. Ymddiheurwn am y llithriad.

Darlith: "Cloddiad Hanesyddol Cell Sant Tegai a'r Pentref Oes Efydd"

gan Francis Lynch MBE MA FSA.
Medi 26ain am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai,
Llandygai. Darlith yn Saesneg.
Dewch i wrando a dysgu mwy am eich hardal!
Tocynnau £5 wrth y drws.
Croeso i bawb!

Trydedd Ddarlith Goffa Archesgob John Williams: "ARCHESGOB JOHN WILLIAMS A HARDDWCH SANCTEIDDRWYDD?"

Sgwrs yn Saesneg gan y Doctoriaid Clive Holmes
a Felicity Heal
(y ddau o Brifysgol Rhydychen)
am 19:00 Nos Wener 20 Hydref 2017
Nos Wener Hydref 20fed am 7 o'r gloch yn Eglwys
Sant Tegai Llandegai
Mynediad yn £5 a lluniaeth i ddilyn

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

Dim Byd Ynni

(neu Dirgelwch Plas Dolbythwyrdd)
gan Emlyn Gomer

Beth yw cyfrinach Syr Felix ap Llywarch? Faint o ledi yw Angela?
Beth ddaeth â Dylan Tudur nôl i'r Plas? Faint o actores yw Candi Mêl?

Beth yn union mae Geriach y bwtler yn ei wybod?

Faint o ddihiryn yw Malcom Leech? Bywyd pwy sydd mewn perygl,
a pham? A, gall yr Arolygydd Carnben ddatrys pob dirgelwch cyn ei
bod yn rhy hwyr?

Ffars i'r teulu cyfan.

Cast: Rhian Blythe, Iwan John, Maldwyn John, John Glyn Owen,
Christine Pritchard, Dyfan Roberts

Cyfarwyddo: Betsan Llwyd

Neuadd Ogwen, Bethesda.
Nos Fercher, 04 Hydref 2017 am 7.30yh.
Tocynnau: 01248 208485.
Neuadd Ogwen.com neu Siop Ogwen.




Cystadleuaeth Garleg Moriarty-Thomas

Eto eleni cafwyd pnawn difyr yn y Douglas pan gynhaliwyd y Gystadleuaeth Garleg Flynyddol. Daeth nifer dda o gystaduwyr brwdfrydig ynghyd ar Sadwrn, 19 Awst, a phawb yn mwynhau'r hwyl, a hefyd y cawl garleg a'r sgwosh a baratowyd ar eu cyfer gan Chris y cogydd.

Y beirniaid oedd Adrian Griffin, Chris Bailey-Hughes, Gwilym Owen, Andrew Carson a Joe Hembrough, a'r buddugwyr oedd Maggie Adam a Malcolm Creasey.



Myfanwy Moriarty Owen yn cyflwyno'r darian i Malcolm Creasey a Maggie Adam




Alan Hinkes Lowri Morgan Nigel Shepherd

15+16 Medi 2017
Neuadd Ogwen, Bethesda
Tim Achub De Eryri
Crib Goch, V12 a DMM
Llew Williams, Ben Stammers
Gweithdai dringo gyda AMI

www.ogwenmountaineeringfestival.co.uk

Mewn cydweithrediad a chefnogi:



Ticedi
£13 - £30
neuaddogwen.com

Llefrith lleol ar gael yn Nyffryn Ogwen

Ydych chi'n awyddus i gael llefrith sydd wedi ei gynhyrchu o fewn ychydig ffilltiroedd i Fethesda yn hytrach na'r llefrith sydd wedi trafaelio gannoedd o filltiroedd? Wel, y newyddion da ydi fod Siop Londis, Bethesda, wedi dechrau stocio llefrith Llaethdy Llŷn ers rhai wythnosau bellach.

Mae Siôn a Nia Jones, a'r teulu

yn cadw 80 o wartheg Holstein-Friesian ar fferm Madryn Isa Boduan, Pwllheli ac yn falch eu bod yn medru cynnig llefrith sydd wedi ei gynhyrchu a'i brosesu yn lleol.

Yn y llun fe welir Siôn Jones (chwith) yn cael ei groesawu gan Jonathan Thomas, rheolwr Londis, Bethesda.



Wu Shu Kwan
Chinese Kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com | Gwelyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan



MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:

- GWELLA FFRITRYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED



Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda

CANOLFAN TREGARTH
Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru - Hyfforddwr -

Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**
4ydd Gradd Gwregus Du

Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**
3ydd Gradd Gwregus Du

Y FFRDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH: Cryfder • Cyflymdra • Ystywydder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

PEN Y CEUNANT ISAF

Y Bwthyn Té
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606



C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR

Llun - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com

01248 600219



Ymgwymerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.

Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV

Golchi 'meddal' - patios, "decking" a llwybrau

Golchi toeau ystafelloedd gwyr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville
Hughes
600853
([nev_hughes@
btinternet.
com](mailto:nev_hughes@btinternet.com))

"Chwedloni" gyda S4C

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn fe lanswyd prosiect newydd cyffrous gan S4C o'r enw 'Chwedloni'. Mae'r prosiect yn annog pobl i gyfrannu eu straeon rhyfeddol nhw, pe bai'n ddigwyddiad chwedlonol yn y teulu neu yn y gymuned, i gael eu darlledu ym Mis Tachwedd 2017. Fe gaiff y straeon gorau eu darlledu ar y sianel a'u cynnwys ar wefan arbennig.

Mae'r dyfarnwr a'r cyflwynydd byd-enwog Nigel Owens yn galw ar bobl Cymru i fachu ar y cyfle i adrodd eu hoff straeon nhw i'r genedl gyfan mewn cyfres o ffilmiau byrion i S4C.

Fe wnaeth e osod y sialens i bobl y wlad yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wrth ddatgelu prosiect cyffrous Chwedloni. Bydd y ffilmiau byrion yn rhan fawr o dymor lliwgar o raglenni 'Chwedlau' S4C ym mis Tachwedd a fydd yn cynnwys amrywiaeth hudol o gynnwys i gyd-fynd â 'Blwyddyn Chwedlau 2017' Llywodraeth Cymru.

Medd Nigel Owens, "Mae gan bawb ei stori ddiddorol, rhywbeth rhyfeddol sydd wedi digwydd yn hanes y teulu neu'r gymdeithas ac rydyn ni eisiau ichi rannu nhw gyda ni i'w cynnwys nhw yn Chwedloni. Rwy'n gwybod am amryw hen chwedl leol o'n pentref ni a straeon diddorol o'r byd rygbi, y rhai sy'n weddus

imi eu rhannu wrth gwrs! Mae Chwedloni yn brosiect cyffrous iawn ac rwy'n gobeithio y byddwch yn dod atom yn llu gyda'ch chwedlau gan ddangos cymaint o hwyl a dychymyg sydd gyda ni fel Cymry."

Os oes gennych stori dda yr hoffech chi ei rhannu, ewch ati i gysylltu â chwmni cynhyrchu Orchard nawr ar e-bost helo@chwedloni.cymru neu ar y ffôn 02920 100 888.

Medd Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol S4C, "Mae gan bawb o leiaf un stori, un chwedl bersonol maen nhw'n hoff o'i hadrodd - dros ginio gyda ffrindiau, dros beint yn y "pyb"...gall fod yn stori sy'n 'neud i chi chwerthin neu sy'n 'neud i chi lefain, sy'n eich synnu, eich swyno, eich arswydo hyd yn oed! Y syniad ydy dathlu a chasglu'r goreuon o'r straeon pentan yma dan faner "Chwedloni" ar S4C. Yn ogystal â chreu gwefan arbennig lle gallwch weld a gwrandao ar ryw 50 o'r chwedlau gorau ar-lein, byddwn hefyd yn eu dangos rhwng ein rhaglenni oriau brig ar S4C drwy gydol mis Tachwedd".

Cafodd y prosiect 'Chwedloni', sy'n gynllun ar y cyd rhwng Croeso Cymru, S4C a chwmni cynhyrchu Orchard, ei lansio heddiw yn stonin S4C gan y cyflwynydd Lisa Angharad.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen ar ddechrau mis Gorffennaf, gan dderbyn adroddiadau am y flwyddyn ac etholwyd y swyddogion a ganlyn:- Cadeirydd: Sue Davies, Hen Barc, Is-Gadeirydd: Gerry Jenson (Tregarth), Ysgrifennydd: Godfrey Northam (Rachub), Trysorydd: Walter Williams (Bethesda), Trefnydd Etholiadol: K.C. Gordon (Llanllechid), Cyfryngau Cymdeithasol: Richard Speight (Carneddi)

Wedyn, cynhaliwyd y cyfarfod deufisol arferol i dderbyn adroddiadau, yn bennaf am Gyngor Bethesda (e.e. y posibilrwydd o gael tai newydd ger y ganolfan feddygol

a chael lle i gamperfanau ger y ganolfan hamdden) a derbyn adroddiad am yr etholiad cyffredinol yn Arfon gan yr a t (Adrian Sharratt o Fangor)

Yna, yng nghanol mis Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Plaid Lafur Arfon, gyda'r canlynol o Ddyffryn Ogwen yn cael eu hethol:-

Swyddog y Merched: Jane Foster-Coulter (Llandygai), Pwyllgor Gwaith: Godfrey Northam a K.C. Gordon; ac ar ddechrau mis Awst, aeth y tri i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Arfon i wneud trefniadau ar gyfer y flwyddyn e.e. cyfarfod pob aelod Arfon

yng nghanol mis Awst i ddechrau cyfnod newydd.

Dilynwyd hyn gyda rali arweinydd Plaid Lafur Prydain (Jeremy Corbyn) ger pwll nofio Bangor, gyda thorf fawr yn gwrandao ar ei araith ac araith arweinydd Plaid Lafur Cymru (Carwyn Jones), gyda chymeradwyaeth gref.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar ddechrau mis Medi i drafod trefniadau ar gyfer y dyfodol a dogfennau ymgynghorol pwysig, ac yna bydd taith gerdded noddedig flynyddol y gangen tua diwedd mis Medi.

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd,
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Cydymdeimlad

Fel roedd Llais Ogwan yn paratoi i fynd i'r wasg daeth y newyddion trist fod Ann Hughes Tŷ Mwyn, Llanllechid wedi'n gadael. Roedd Ann newydd ddatlu ei phen blwydd yn 70 oed ac am gyhoeddi ei diolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur. Ni fu'n dda ei hiechyd ers tro a bu yn Ysbyty Gwynedd am driniaeth sawl tro a thrist yw gorfod cofnodi iddi golli'r frwydr yn y diwedd. Mae'n cydymdeimlad llwyr af mynd at Eifion ei gŵr ac at ei phlant, Siân a Gwyn a hefyd at Paul, ei mab yng nghyfraith, yn ogystal ag at holl aelodau ei theulu a'i chyfeillion.

Capel Carmel

Trefn y Gwasanaethau

Medi 17: Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen.

Medi 24: Gweinidog.

Hydref 1: Gweinidog (Cymun).

Hydref 8: Oedfa Ddiolchgarwch.

Hydref 15: Parchg. Dylan Rhys Parry.

Oedfaon am 5.00 y.h. oni nodir yn wahanol.

Ysgol Sul am 10.30 y.b.

Clwb Dwylo Pysur - nos Wener am 6.30y.h.

Clwb Gwaith Llaw - 2.00 - 4.00 y.p, Medi 18,

Hydref 2 a Hydref 16.

Te Bach yn yr Ysgoldy ar ddydd Llun,

Medi 25, am 2.30 - 4.00 y.p.

Croeso cynnes i bawb ymuno, boed yn aelodau o'r capel neu ddim!

Ysbyty

Bu Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi yn yr ysbyty am gyfnod. Da deall ei bod gartref erbyn hyn, ac 'rydym yn anfon ein cofon atoch Buddug, a hefyd at yr aelodau sy'n sâl gartref.

Dymunwn wellhad buan i Morgan, ŵyr Mrs. Sheila Hall, Cae Berth, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth mewn ysbyty yn Birmingham yn ystod yr haf.

Priodasau

Bu dwy briodas yn y capel yn ystod yr haf, ac

'rydym yn llongyfarch ac yn dymuno'n dda i'r ddau gwpwl, sef: Lois a Mathew, Erw Las, a briodwyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 29.

Hefyd, Rhia a Brynmor, Rachub, a briodwyd ddydd Sadwrn, Awst 19.

Cydymdeimlo

Yn ystod yr haf bu i'r capel golli tri aelod trwy farwolaeth, sef Mr. Mr. Emyr Griffiths, Ffordd Garneddwen, Bethesda, Miss Olwen Lewis, gynt o Stryd Bryn Owain, Rachub, a Mr. Emrys Lloyd Parry, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.

Anrhydedd

Llongyfarchiadau i'r Athro Deri Tomos, ar gael ei anrhydeddu yn Eisteddfod Genedlaethol Môn, pan dderbyniodd y Fedal Wyddoniaeth am ei gyfraniad ym myd Gwyddoniaeth trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys, Bron Arfon, ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. 'Roedd yn fuddugol mewn dwy gystadleuaeth dan 16 oed, sef yr Unawd Piano a'r Unawd Llinynnau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Jenna Allsup ar wneud y rhestr fer ar gyfer gwobr GIG Cymru o dan yr enwebiad 'Promoting Clinical Research and Application to Practice Award (supported by 'British Medical Association Cymru Wales') gyda'i phrosiect yn yr adran MRI. Dyma'r unig enwebiad o Ogledd Cymru gyfan sy'n mynychu'r noson wobrwyo yng Nghaerdydd ym mis Medi. Pob lwc.

Diolch

Dymuna Sylvia Williams o Bron Bethel ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd yn 70 oed. Hefyd, diolch i'r person wnaeth adael cerdyn ar y dydd llun ond yn anffodus doedd dim enw arno.

Difrod i'r Eglwys

Trist iawn yw gorfod nodi fod difrod troseddol wedi ei wneud yn ddiweddar i Eglwys Santes Llechid. Mae tair o'r ffenestri lliw, sydd wedi cael llonydd yno ers dros 170 mlynedd wedi eu torri a'u difrodi mewn ymdrech i dorri mewn i'r adeilad.

Galwn ar y trigolion lleol i gadw llygad am unrhyw ymddygiad amheus o

gwmpas yr ardal. Os oes gennych unrhyw wybodaeth cysylltwch â Neil Yardley:- 07821599233

Llongyfarchiadau

Mae dwy ferch fach newydd wedi dod i fyw i Llwyn Bedw dros yr haf!

Llongyfarchiadau i Kieran a Sioned, Llwyn Bedw, ar enedigaeth Bela Haf, ddiwedd Gorffennaf. Mae Siôn, Elis a Cian wedi gwirioni efo'u chwaer fach newydd. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Hefyd, ganwyd Beti Henri Allsup ar Awst 18fed yn chwaer fach i Elsi Mererid, a merch i Jenna a David Allsup. Diolch i bawb am yr anrhegion a'r caredigrwydd.

Trwsio wal

Mae'n dda gennym weld bod Cymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi trwsio'r wal rhwng yr hen ysgol a chapel Carmel, wedi iddynt weld map gweithredoedd y Capel.

Arholiadau

Llongyfarchiadau i blant yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau T.G.A.U a Safon Uwch.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Dafydd, Helen, Sioned, Dion, Caryl, a'r teulu oll ar ôl colli mab, brawd, tad a thaid annwyl fis Awst. Cydymdeimlwn â chi o waelod calon yn eich profedigaeth drist o golli Iestyn. Daeth y gymuned at ei gilydd i ffarwelio â Iestyn ar Awst 12fed yng Nghapel Carmel, ac o weld cynifer oedd yno i dalu teyrnged iddo, mae'n hollol amlwg y bydd colled enfawr ar ei ôl. Dymuna'r teulu ddiolch i'r rhai a sicrhodd fod y gwasanaeth yn un teilwng; i'r Parchedig Dafydd Williams am wasanaethu, i Helen Williams ar yr organ, ac i Glwb Criced Bethesda ac Annwen Briggs am y lluniau. Maent yn hynod ddiolchgar i Steven Jones am ei gymorth parod gyda'r trefniadau. Diolch i bawb am eu geiriau caredig. Cysga'n dawel Iestyn.

Penblwyddi

Penblwydd hapus iawn yn 18 oed i Martha Glain - mwynha dy ddiwrnod arbennig a'r holl ddathlu! Cofion gan dy deulu a' th ffrindiau.

Penblwydd Hapus i Gwydion Eryri yn 8 oed ar Fedi'r 6ed, a phenblwydd priodas hapus (yr un diwrnod) i Meirion a Meleri hefyd!

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



16 Medi - Cefnfaes - Clwb Camera
 23 Medi - Cefnfaes - Capel Jerusalem
 30 Medi - Cefnfaes - Eglwys
 Glanogwen
 07 Hydref - Cefnfaes - Plaid Cymru
 21 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod
 Dyffryn Ogwen.
 28 Hydref - Cefnfaes - Eglwys Sant
 Cedol, Pentir.
 04 Tachwedd - Cefnfaes - Neuadd
 Talgai.
 11 Tachwedd - Cefnfaes - Gorffwysfan
 25 Tachwedd - Neuadd Ogwen - Plaid
 Lafur
 25 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin -
 NSPCC

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Hydref 14eg
 Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Tachwedd 11eg
 Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Tachwedd 22ain
 Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Bwydydd, Crefftiau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
 Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

MEDI 26
 HYDREF 10, 24 A 31
 am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CLWB CAMERA DYFFRYN OGWEN

SADWRN 16 MEDI
 10.00 - 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CAPEL JERUSALEM

SADWRN 23 MEDI
 10.00 - 12.00

Dysgu Cymraeg CWRS WLPAN

(Dechreuwyr)
 Neuadd Ogwen
 Dydd Llun 1.30 - 4.30
 Dechrau 26.09.2017

Hefyd i ddysgwyr profiadol CANOL WLPAN/PELLACH

Canolfan Cefnfaes
 Dydd Gwener, 9.15yb - 12.45yp
 Dechrau 23.09.2017
 01248 383928
dysgucymraeg@bangor.ac.uk

Noson yng nghwmni'r

WELSH WHISPERER

Clwb Criced a Bowlio
Nos Wener, 13 Hydref
 Am 8.00yh
 Tocynnau: £5.00

Cadeiriau ar gael yn rhad ac am ddim

(hyd at 20 o gadeiriau plastig llwyd)
 o Ffestri Bethlehem Talybont

Am ragor o wybodaeth
 cysylltwch â
 Neville Hughes ar 600853

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI PLAID CYMRU

SADWRN 7 HYDREF
 10.00 - 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EGLWYS GLANOGWEN

SADWRN 30 MEDI
 10.00 - 12.00

Dathlu Dydd Owain Glyndwr

Nos Wener Medi 22ain
 am 7:00 yr hwyr
 yn Neuadd Ogwen

Pryd o Fwyd Canoloesol
 tri Chwrs gyda Nia Powell
 yn sôn am fwyd y cyfnod.

I ddilyn: Sgwrs gan
 Rhys Mwyn
 Archaeoleg Sycharth a
 Glyndyfrdwy.

Pris: £20 y pen

Cyfyngir ar niferoedd felly
 cysylltwch â Cynan Jones ym
 Mhartneriaeth Ogwen
 i logi eich lle post@ogwen.org
 01248 602131

Jamiau Cartra'

(at elusennau ac achosion lleol)
 Angharad a Neville Hughes,
 14 Ffordd Pant, Bethesda,
 LL57 3PA

Ffôn: 01248 600853

Dewis eang ar gael
 yn cynnwys
 mwyar duon, cyrens duon,
 mefus, riwbob a sunsur,
 llus a riwbob, cwsberis,
 cyrens coch, mafon, bricyll
 eirin fectoria a duon.
Croesewir ymholiadau!

CYFARFOD BLYNYDDOL

**SIOE
AMAETHYDDOL
DYFFRYN
OGWEN**NOS FAWRTH -
HYDREF 10

AM 7.30 YH

CANOLFAN
CEFNAES,
BETHESDA

CROESO CYNNES I BAWB

**RHEINALLT PUW
CYMHORTHFA**

GORFFWYSFAN

Dydd Mercher 18.10.2017

4.00yp – 6.00yh

07789 742 092

Cynghorydd.rheinalltpuw@
gwynedd.llyw.cymruDilynwch ni ar trydar
@Llais_OgwanCopa
Your Library**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

BYSUS

D. J. Owens
RHWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.**Bysus Gwyrd Rhlwlas**GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS**Ysgol Bodfeurig****Croeso a ffarwel**

Mae'r haf yn arwydd o ddiwedd un cyfnod a dechrau newydd. Roedd diwedd tymor yr haf yn gyfle i ffarwelio gyda nifer o ddisgyblion sydd yn symud ymlaen i anturiaethau newydd boed yn symud i'r ysgol uwchradd neu'n symud i ardal neu wlad newydd. Pob lwc i bob un ohonynt yn eu hysgolion newydd.

Ar ddechrau'r tymor newydd hoffem groesawu'r disgyblion newydd i'r ysgol - o'r plant lleiaf meithrin i blant sy'n trosglwyddo atom o ysgolion eraill. Rydym yn edrych ymlaen i ddod i'ch adnabod yn

well ac i chi ddod yn rhan o gymuned yr ysgol.

Ymweliad â Sw Caer

Cafodd yr adran iau ymweliad diwedd tymor gwych â Sw Caer, gwelwyd nifer fawr o anifeiliaid diddorol ond heb amheuaeth y ffefryn oedd yr eliffantod a'r jiraff.

Mabolgampau

Un o uchafbwyntiau haf pob ysgol yw'r mabolgampau a chafwyd prynhawn gwych acw gyda llawer o hwyl a chwerthin yn ogystal a chystadlu brwd ymysg y timau. Diolch i'r rhieni a chyfeillion yr ysgol am ymuno gyda ni a chefnogi.

Parti Tylwyth Teg

I ddiweddu eu thema am 'Pethau Pitw Bach' cafodd dosbarth Idwal amser gwych mewn parti tylwyth teg. Gwisgodd pawb fel coblynod, tylwyth teg a chreaduriaid y goedwig cyn cael cyfle i wneud bwyd parti a'i fwyta, blasu cacen arbennig a dathlu gyda gemau a swigod! Diwedd gwych i flwyddyn brysur.

Cofiwch os ydych am gadw llygaid ar ddigwyddiadau yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol newydd ewch i'n gwefan www.ysgolbodfeurig.org ac i'n cyfrif trydar twitter.com/YsgolBodfeurig



Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cyfraniad Côr y Penrhyn i LleChi

Perfformiad olaf y côr cyn seibiant yr haf oedd hwnnw gyda 9Bach yn Theatr Pontio, Bangor yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Môn eleni. Y tro hwn cafwyd dau berfformiad o'r sioe lwyddiannus a welwyd gyntaf ym Mis Ebrill 2016 a buont yn llwyddiant ysgubol unwaith yn rhagor. Roedd y cyfuniad o fwisig, dawns, barddoniaeth, lluniau ar sgrîn a darlenniadau wedi eu cyd-wau yn un cyflwyniad di-dor yn creu sioe unigryw. Tystiai pawb a ddaeth i'w gweld bod hon yn un o'r sioeau a wnâi'r argraff mwyaf ar synhwrau'r gynulleidfa.

Roedd Mr O. Jones, o Fynydd Nefyn gynt, wedi gwirioni gyda'r cyflwyniad ac meddai, "Mi wnaeth fy mhriod a minnau fwynhau cymaint ar y sioe LleChi y tro cyntaf fel i ni benderfynu dod i'w gweld am yr eildro." Ychwanegodd Mr Jones, "Chawson ni mo'n siomi oherwydd roedd y cyfan yn iasol o ran seiniau'r caneuon a lleisiau soniarus y côr yn creu cefndir mor effeithiol i'r hyn a deimlem ac a welem."

Roedd Mrs Sioned Jones, brodor o Feddgelert, yn cytuno pan ddywedodd, "Mi gefais i fy magu mewn ardal lle roedd cloddio am fwynau yn rhan o fywyd bob dydd y trigolion ac roedd gennyn ni lawer yn gyffredin â phobl y chwarelli llechi." Aeth yn ei blaen i egluro fel roedd caledi, tloidi ac aberth wedi llunio ei chymeriad a'i chefnidir hithau ac fel roedd y cyflwyniadau gan 9Bach, Siân James, Lleuwen Steffan a John Ogwen heb sôn am Gôr y Penrhyn a Martin Dawes wedi cyffwrdd â chord llawn teimlad yn ei chalon.

Dyma ddywedodd un beirniad, "Cymysgedd eclecticig o ffurfiau gweledol, cerddorol ac aerobatig oedd yn swynol i'w wyluo oedd hwn. Daeth 9Bach yn ôl i arwain cast talentog yn y dull newydd a ffres hwn o gyflwyno stori. Aeth â ni ar daith drwy hanes, diwylliant a thraddodiadau'r diwydiant llechi a daeth y perfformiad hwn â stori'r bobl a'r tirwedd yn fyw." Ychwanegodd, "Roedd hwn yn berfformiad hyfryd oedd yn cynnig digon o emosiwn a synnwy'r real o le."



Lisa Jên yn perfformio yn y sioe LleChi

Tymor y gaeaf

Mae gan y côr raglen lawn o gyhoeddiadau yn aros eto ac mae'r gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban ar 3 Chwefror 2018 yn Stadiwm y Principality, Caerdydd yn un ohonynt. Bydd y côr yn perfformio ar y maes cyn y gêm a chyda cymorth corau eraill byddwn yn codi canu gyda'r dorf er mwyn ceisio creu awyrgylch o hwyl a chyffro cyn yr ornest. Dywedodd Gareth Williams o Lanfairfechan, "Dyma un o gemau mawr y chwe gwlad ac fel cefnogwr cyson o RGC rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at weld bechgyn Cymru yn cyflwyno gwledd o rygbi i ni a ninnau'n chwarae rhan yn eu llwyddiant gobeithio."

Meddai un aelod o Landygái, "Fel gogleddwr, "rwy'n edrych ymlaen at weld George North, y bachgen o Fôn, yn perfformio ar yr asgell ac yn gadael ei farc unwaith eto ar gêm gofiadwy."

Mae Mr Derek Griffiths o adran yr ail denoriaid mewn lle anodd gan fod rhai o'i deulu ef yn byw yn yr Alban ac yn cefnogi'r tîm o'r fan honno. Dywedodd Mr Griffiths, "mae fy nghalon yn gobeithio mai Cymru fydd yn fuddugol ond rydw i'n gobeithio bydd yr Albanwyr yn cael digon o hwyl arni i roi gêm agos i ni. Hoffwn i ddim i ni roi crasfa i'n cyd-Geltiaid a'n perthnasau agos."

Cymeriadau'r Côr

Mae llawer o ddarllenwyr a chefnogwyr y côr wedi bod yn gofyn lle mae'r gyfres boblogaidd o luniau a phroffiliau'r aelodau wedi mynd. Cawsom rai trafferthion technegol gyda'r adran luniau a ffotograffau ond erbyn hyn gobeithiwn eu bod wedi eu datrys a dylai'r gyfres fod yn ôl ar dudalennau'r Llais y mis nesaf.

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

Llais Ogwan

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Medi 17: Parchg. John Gwilym Jones.

Medi 24: Parchg. John Lewis Jones.

Hydref 1: Parchg. Dafydd Coetmor
Williams.

Hydref 8: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes.

Hydref 15: Parchg. Gareth Edwards.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

**MODURDY
FFRYDLAS**



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Cofeb 2014-1918

Gan fod nifer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle ar draws y wlad yn cofio cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf tybiais y byddwn yn gwneud ychydig o waith ymchwil i'r rhai gollodd eu bywydau yn ardal Rhiwlas a Phentir.

Cofiais fod dwy gofeb ar fur y brif ystafell ddosbarth yn Ysgol Rhiwlas. Un o bren yn cofio'r Rhyfel Mawr a'r llall o garreg ar siâp tarian yn cofio'r Ail Ryfel Byd. Mae'r ddwy yn cofio cyn-ddisgyblion yr Ysgol a gollodd eu bywydau.

Felly, i'r ysgol a mi a chyfeiriodd y Pennaeth, Mr Davies at un gofeb yn y cyntedd. Cofeb gyfansawdd weddol ddiweddar yw hon sy'n cynnwys gwybodaeth y ddwy gofeb wreiddiol. Ar ôl holi hwn a llall, daeth i'r amlwg bod y ddwy gofeb wreiddiol wedi eu symud o'r ystafell ddosbarth i'r cyntedd flynyddoedd yn ôl ac wedyn wedi eu cadw mewn storfa pan wnaethpwyd gwaith atgyweirio yn y cyntedd. Mae rhaid bod asesiad o'r cofebau wedi eu gwneud bryd hynny a phenderfynwyd llunio cofeb gyfansawdd newydd, y gwaith wedi ei gyflawni gan Mr Robot Llywelyn dan arweiniad Mr Glynne Thomas.

Yn garedig iawn cytunodd Mr Davies chwilio am y cofebau gwreiddiol ac yn ffodus darganfuwyd cofeb yr Ail Ryfel Byd. Mae Mr Davies wedi diogelu'r gofeb honno ond yn anffodus ar ôl chwilio pob storfa ni ddaethpwyd o hyd i'r gofeb arall.

Cafwyd awgrym bod cofeb y Rhyfel Mawr wedi ei symud i'r Porth Coffa ym Mangor. Cafwyd mynediad i'r Porth gan swyddogion Prifysgol Bangor ac er bod cofebau wedi eu symud yno o hen gapeli Bangor, nid oedd cofeb Ysgol Rhiwlas yno. Felly, rhaid dod i gasgliad bod y gofeb dan sylw wedi ei gwaredu a hynny ers rhai blynyddoedd bellach. Mae hyn yn hynod o siomedig oherwydd mae rhan o hanes yr ardal wedi ei cholli. Pwysigrwyd cofebau gwreiddiol yw eu bod yn dweud stori cyfnod ac mewn perthynas â chofeb Ysgol Rhiwlas mae'r dyluniad yn ddiddorol.


Roedd dyluniad y gofeb wreiddiol yn unigryw, yn dangos merch ifanc yn penlinio o flaen allor a Christ ar y Groes. Mae hefyd yn defnyddio cyfuniad o Gymraeg a Saesneg. Tybiwn na fyddai'r un dyluniad yn cael ei gomisiynu heddiw ac yn sicr ddim yn cael ei osod mewn ystafell ddosbarth. Byddai cyn-ddisgyblion yr Ysgol yn dweud wrthyh ei fod yn codi dipyn o fraw. Yn sicr bwriad ei osod yn yr ystafell ddosbarth oedd atgoffa'r disgyblion o aberth cyn-ddisgyblion ond a oedd yna fwriad arall? Pam bod y ferch ifanc ar ei gliniau yn gweddïo? Mae'n gweddïo dros y bechgyn a gollwyd ond ydy hi hefyd yn gweddïo am ffolineb rhyfel ac i'r rhyfel hwn fod yn derfyn ar bob rhyfel? Oedd y gofeb yn destun trafodaeth gyda'r plant gyda'r athrawon yn adrodd ac egluro cefndir 'y bechgyn' a hanes y Rhyfel?

Pwynt pwysig am geisio diogelu cofebau gwreiddiol yw bod cofnod swyddogol ohonynt yn bodoli ar safle wë yr Imperial War Museum. Mae'r ffynhonnell honno'n cofnodi bod cofeb yn Ysgol Rhiwlas ond y gofeb gyfansawdd newydd sydd wedi ei chofrestru. Erbyn hyn mae'r Amgueddfa wedi eu hysbysu o'r ffaith bod y gofeb wreiddiol ar goll.

Felly, os gwyddoch am leoliad y gofeb wreiddiol neu yn gallu cyfrannu mwy i'r ymgyrch dditectif yma, cysylltwch â Cynrig: 01248 601318.

Cyn cloi, mae'n werth nodi'r cysylltiadau lleol canlynol parthed cofebau y Rhyfel Byd Cyntaf:

1. Gweler fraslun llawrydd o Gofeb Ysol Rhiwlas isod. Mae'n rhoi syniad o ddyluniad y Gofeb. Mae'n gopi o hen ffotograff (nad yw'n ddigon clir i'w gynnwys gyda'r erthygl) o eiddo Gwyn, Cefn Coch a diolch iddo am ei fenthyca.



2. Cofier bod Cofeb Ysgol Rhiwlas ond yn cofnodi cyn-ddisgyblion a gollodd eu bywydau. Collwyd nifer eraill o'r ardal a gellir gweld yr holl enwau ar fur y Porth Coffa ym Mangor.
3. Roedd cofeb y Rhyfel Byd Cyntaf hefyd yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd oedd yn sefyll ble mae Tai Capel Ysgoldy heddiw. Pan ddymchwelwyd y capel rhai blynyddoedd yn ôl adleolwyd y gofeb ac mae i'w gweld heddiw ar fur Eglwys Sant Cedol.
4. Mae cofeb eithaf unigryw i'w chael yn Eglwys Sant Cedol hefyd, yn cofnodi bechgyn yr Eglwys a gollodd eu bywydau. Mae'r gofeb wedi ei llunio o lechen. Mae hyn yn anghyffredin ac mae dyluniad o filwr wedi ei cherfio arni.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

**Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Peiriant codi arian di-dâl

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902



Priodasau

Llongyfarchiadau i Catrin Heledd Williams, gynt o Fferm Bryn Eithin, Llanllechid ac Arthur Lloyd Thomas o Bentrefoelas ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r ddau ar ddechrau eu bywyd priodasol a phob dymuniad da gan y teulu oll.

Yn ddiweddar priodwyd tair merch ifanc sy'n dod o Erw Las.

Ar yr 20fed o Awst yn nhy Pencoed, Caerdydd priodwyd Rhian Wyn Williams, merch Lilian a Cemlyn Williams gyda Geraint Richards. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig



Lois a Mathew ar ddydd eu priodas

Marcus Robinson, sydd hefyd yn aelod o'r teulu. Dathlwyd yr achlysur ar yr un safle hyfryd gyda theulu a chyfeillion Rhian a Geraint. Treuliwyd y mis mêl yn yr Eidal. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonoch. Mae Rhian a Geraint yn gweithio ac wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Priodwyd Sioned sy'n ferch i Kevin a Nia Williams gyda Wyn Ogwen Morris, Dolawen. Dymunwn pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

Llongyfarchiadau i Lois a Mathew Nottingham ar achlysur eu priodas. Cynhaliwyd y briodas ar Orffennaf 29ain yng Nghapel Carmel, gyda'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gweinyddu. Bu gweddill y dathliadau yn Neuadd Hugh Owen, Prifysgol Bangor. Treuliwyd y mis mêl ym Mauritius. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn Erw Las, Bethesda. Dymuna Lois a Mathew ddiolch o waelod calon am yr holl ddymuniadau, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Yr Eglwys Unedig

Mae Tymor yr Hydref wedi dod eto felly byddwn yn brysur efo'r gweithgareddau sy'n mynd ymlaen yn flynyddol yn ogystal â'r oedfaon an ardderchog a difyr iawn yn ystod mis Awst. Ym mysy y rheiny roedd gwasanaethau dan arweiniad y Parchedigion Mererid Mair Williams a Sioned Williams, dwy wraig ifanc a brwdfrydig. Diolch iddynt!

Daliwyd ati i gael sgwrs a phaned ar ôl yr oedfaon boreol a chawsom bâr ifanc o'r Iseldiroedd yn ymuno â ni ar Awst 27ain. Roedd gan y wraig ofalaeth eglwys ei hun gartref felly roedd sgwrsio gyda hi'n ddi-ddorol iawn.

Llongyfarchiadau i'r rhai a gafodd lwyddiant yn eu harholiadau Lefel 'A' a TGAU, rhai'n gyn-ddisgyblion o'r Ysgol Sul. Da iawn chi!

Bu'r trydanwyr yn brysur aid a nain i fachyn gosod larymau tân ac yn gwneud gwaith arall i ni yn y capel.

Llongyfarchiadau i Emyr a Heulwen ar ddod yn daid ac yn nain eto - i fachgen bach y tro hwn.

Braf oedd gweld Linda Brown a Menai Williams ar y teledu y naill yn cael ei derbyn i'r Orsedd a'r llall yn beirniadu ac yn rhoi sylwadau a rai cystadlaethau.

Diolch i Walter, Owen John a Dafydd Hughes am dorri'r coed tu ôl i'r capel, mae wedi goleuo'n arw yno.

Edrychwn ymlaen at fwrlwm yn ôl yn y capel pan fydd yr Ysgol Sul ar foreau Sul wedi ail ddechrau a'r baned ar gael ar foreau Iau. Hefyd bydd y Gymdeithas a'r Clwb Celf yn ogystal â'r cymdeithasau eraill yn defnyddio'r ystafelloedd.

Gair o ddiolch

Dymuna Minnie Lewis ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at gronfa "Bowel Cancer" ar achlysur ei phenblwydd ym mis Gorffennaf.

Cynhaliodd Minnie ddiwrnod agored yn ei chartref ym Mhorthaethwy a gwnaed elw o £375.00 at yr achos. Swm ardderchog iawn!

Cyhoeddiadau i ddod

Medi 17 - Y Parch. Marcus Robinson - 5 o'r gloch yr hwyr
Medi 24 - Y Parch. Gwenda Richards - 5 o'r gloch yr hwyr
Hydref 1 - Miss Nerys Jackson
Hydref 8 - Trefniant mewnol yn y bore - yna Mr Eurfryn Davies am 5 o'r gloch yr hwyr
Hydref 15 - Parch. R.O.Jones

Graddio

Llongyfarchiadau i Sara Menai Stockwell o'r Felinheli am ennill

gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cemeg ym Mhrifysgol Bangor. A hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Sara'n ferch i Gillian a Shôn Stockwell ac yn wyres i Albert a Rowena Rees o Stâd Coetmor.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Emyr Frederick Griffith, Plas Ogwen (gynt o Erw Fair, Garneddwen) ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un oedd mor annwyl iddynt. Diolch hefyd am y rhoddion hael a gasglwyd tuag at Staff Plas Ogwen. Diolchwn i'r Parchedigion John Pritchard a Dafydd Coetmor Williams am y gwasanaeth teimladwy, ac i'r organyddes, Mrs. Helen Wyn Williams. Hoffem ddiolch hefyd i Gaffi Coed y Brenin ac aelodau Capel Carmel am ddarparu'r lluniaeth, ac i Staff Plas Ogwen am eu gofal arbennig o Emyr dros y blynyddoedd diwethaf. Gwerth fawrogn hefyd y trefniadau trylwyr a hynod barchus gan yr ymgymwrwr Gareth Williams, Garneddwen.

Dymuna teulu y diweddar Anne Evans (Nancy), 5 Rhos Penybryn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion tuag at elusen Alzheimers ac i'r Tad Adrian Morrin am wasanaeth yr angladd a Gareth Williams am y trefniadau trylwyr.

Gwella

Dymuna Mrs. Gwenda Jones, 14 Glanffrydlas, ddiolch yn fawr iawn i aelodau'r teulu a chyfeillion am yr holl ddymuniadau da tra bu, ac wedi iddi fod, yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth.

Dymuna Maggie Jones, Ty Coetmor, Bryn Bella, ddiolch o waelod calon i bawb am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd ati tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl iddi ddychwelyd adref

Priodas Aur

Ar 22 Gorffennaf dathlodd Walter a Menai Williams, 14

Erw Las, 50 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i'r sawl a fu yn yr ysbyty yn ystod tymor yr haf. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Mr. Len Williams, Plas Ogwen, Mr. John Wyn Jones, Ffordd Bangor, Mrs. Karen Roberts, Llain, Mrs. Rhiannon Efans, 1 Ffordd Pant, Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi, Mrs. Gwenno Evans, Stad Coetmor, Linda Parker, Golygfa'r Mynydd, Elena Fitzpatrick, Rhes Ogwen, Mrs. Maggie Jones, Bryn Bella, Owie Williams, Maes y Garnedd.

Nain a Taid

Llongyfarchiadau i Heulwen ac Emyr Roberts, Ystrad Awel, Ffordd Bangor, ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a thaid i wŷr yng Nghaernarfon.

Penblwyddi Arbennig

Bu tair o ferched yr ardal yn dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar, sef Mrs. Rita Bullock, Maes y Garnedd yn 70 oed, Mrs. Nancy Jones, Pant Glas yn 80 oed a Lynne Williams, Adwy'r Nant yn 50 oed. Llongyfarchiadau a gobeithio i chi gael penblwyddi i'w cofio.

Diolch

Trwy gyfrwng y Llais hoffwn i, Rita Bullock, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am y cardiau ac anrhegion lu a dderbyniwyd ar achlysur fy mhenblwydd arbennig ar Awst 12fed. Diolch o galon i chi i gyd.

Cydymdeimlo

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Mrs. Mair Taylor, Maes y Garnedd a'r teulu. Collodd Mair ei brawd, Elwyn oedd yn byw yn Mhorthaethwy.

Mrs. Ann Williams a'r teulu, Tafarn y Tarw, Stryd Fawr, a Mrs. Gill Buchanan a'r teulu Bryn Caseg. Colli eu brawd, Hugh Alun, yn y Felinheli.

Marw

Winifred Ann Leung
Ar 5 Gorffennaf, yn sydyn yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl, yn 78 oed, bu farw Mrs. Winifred Ann Leung, 6 Rhes Ogwen a Siop Blodau Hyfryd. Priod annwyl Mr. Peter Leung, mam Peter a llys-fam i Mary, John a Peter. Roedd yn chwaer i Brenda a hefyd yn nain. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 14 Gorffennaf yn Amlogsgfa Bangor, gyda'r gwasanaeth dan

arweiniad y Parchedig John Mathews. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Megan Hughes

Yn ei chartref, Ardudwy, 2 Rhos y Coed, ar 10 Gorffennaf, bu farw Mrs. Megan Hughes yn 82 oed. Priod y diweddar Mr. Selwyn Hughes, mam a mam yng nghyfraith i Medwyn a Jude, Bethan ac Ifan, ac Elan. Nain hoffus i Aaron, Steve, Dave, Nathan ac Elsa. Bu'n aelod ffyddlon ac yn organydd yng Nghapel Bethania nes iddo gau ddiwedd 2015. Bu hefyd yn aelod o Sefydliad y Merched. Roedd yn wraig dawel a pharchus iawn. Ei chyn weinidog, y Parchedig Gwynfor Williams, fu'n gwasanaethu yn ei hangladd yn Amlogsgfa Bangor ar ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd â hwy yn eu profedigaeth. Fe gasglwyd £565 at Ymchwil Canser er cof am Megan.

Bertie Wyn Hughes

Ar 18 Gorffennaf, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Bertie Wyn Hughes, 4 Stryd John. Brawd annwyl i Dafydd a'r diweddar Eurwyn. Bu Bertie yn dioddef o salwch ers sawl blwyddyn, ond cafodd ofal arbennig gan ei frawd, Dafydd, hyd ei ymddeoliad. Bu'n gweithio yn Chwael y Penrhyn. Yn Amlogsgfa Bangor ar ddydd Mercher, 26 Gorffennaf y cynhaliwyd ei angladd, gyda'r Parchedig Ddoctor Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â thi, Dafydd.

Emyr Griffiths

Yn dawel yng Nghartref Plas Ogwen ar 22 Gorffennaf, bu farw Mr. Emyr Griffiths, Erw Wen, Ffordd Garneddwen, yn 96 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs. Elena Griffiths, ac ewythr hoffus i Valerie a'r teulu, Tregarth, Gareth a'r teulu,

Bae Colwyn a Gwyn a'r teulu, Bangor. Roedd hefyd yn frawd yng nghyfraith i Mr. Clement Jones, Bangor.

Roedd Emyr wrth ei fodd yn yr ardd, ac 'roedd ei ardd gefn yn werth i'w gweld - yn llawn llysiau a blodau. Câl bleser mawr hefyd yn cerdded, ac ni fyddai ef a'i briod yn meddwl dim am gerdded i Brynhafodywern, Llanllechid i ymweld â'r diweddar Amwel ac Eirian Pritchard, ac yna cerdded y llwybrau i Glan Gors, Tregarth i ymweld â'i chwaer, Audrey a Laurence. Daeth yn aelod yng Nghapel Carmel wedi i gapeli Bethesda a Siloam gau. Cynhaliwyd ei angladd yng Ngharmel a mynwent Coetmor ar 28 Gorffennaf, gyda'i weinidog, y Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gwasanaethu. Cyflwynwyd y deyrnged gan Mr. Gareth Pritchard. Mrs. Helen Wyn Williams oedd wrth yr organ.. Cydymdeimlwn â chwi fel aelodau o'r teulu i gyd.

Dafydd Iestyn Evans-Hughes

Ar 6 Awst, yn sydyn yn ei gartref, 6 Victoria Place, bu farw Mr. Dafydd Iestyn Evans-Hughes, yn 41 oed. Cymar annwyl Caryl, a thad Mali Jon, Lowri Lynn a Cai. Taid Harry Max a llys dad i Kieran a Cameron. Roedd yn fab i Dafydd a Helen Evans-Hughes, Gardd Eden, Rachub, yn frawd mawr i Dion a'r teulu a Sioned Elen a'r teulu, ac yn wŷr i Mrs. Nancy Evans-Hughes, Llangefni. Roedd yn gweithio gyda'i dad a'i frawd yn eu cwmni adeiladu. Roedd Iestyn yn berson hoffus iawn oedd yn barod i sgwrsio â phawb. Bu'r angladd ar fore Sadwrn, 12 Awst, gyda gwasanaeth yn Gardd Eden ac yna yng nghapel Carmel a mynwent Coetmor. Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams oedd yn arwain y gwasanaeth, a chyflwynwyd teyrnged a baratowyd gan y teulu gan David. Mrs. Helen



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

Williams oedd wrth yr organ. Mae'n debyg mai hwn oedd yr angladd mwyaf a welwyd yng nghapel Carmel ers tro byd. Roedd y capel dan ei sang a thyrfa enfawr y tu allan. Rydym yn cydymdeimlo â chi i gyd yn eich colled fawr.

Emrys Lloyd Parry

Ar ddydd Llun, 28 Awst, yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Emrys Lloyd Parry, 9 Ffordd Ffrydlas, yn 83 oed. Priod annwyl a gofalus Mrs. Phyllis Mary Parry, tad a thad yng nghyfraith i Philip, Bethan a Gary, taid hoffus i Megan, Gwen, Mari a Leri, a hen daid annwyl i Bobi Emrys, a brawd i Megan Lloyd. Bu'n gweithio i gwmni BT am flynyddoedd cyn ei ymddeoliad. Roedd ef â'i briod yn hoff o gerdded ardal Dyffryn Ogwen, ac roedd Emrys yn hoffi bod yn ei ardd. Dyn tawel a pharchus oedd Emrys ond yn barod am sgwrs a thipyn o hwyl bob amser. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogsgfa Bangor ar 5 Medi. Cydymdeimlwn â chi oll fel teulu.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cynhelir Noson Trefnu Blodau yn yr ysbyty am 7.00yh ar 12 Hydref, gan Mr. Keith Smythies. Tocynnau yn £8.00 ac yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Tocynnau ar gael gan Dewi Morgan, Wendy Jones, Glenys Morgan a Joe Hughes.

Gorffwysfan

Ar ddydd Iau, 13 Gorffennaf, aeth 43 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gerddi Trentham.

Cafwyd coffi ar y ffordd y tu allan i Gaer, cyn mynd ymlaen i ymweld â'r gerddi a'r siopau. Cafwyd diwrnod braf a phawb wedi mwynhau, ac yn edrych ymlaen i ymweld eto. Diolchwyd am y trefniadau gan ein cadeirydd, Mr. Elfed Bullock.

Ysbyty

Dymunwn yn dda i Hilda Campbell, Erw Las sy'n cychwyn ar gyfres triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod y mis yma.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk






Llwybr troed ar hyd Lôn Newydd

Bu'r Cynghorydd Dafydd Meurig yn ceisio cael yr awdurdodau i greu llwybr ar hyd Lôn Newydd o Ganolfan Chwaraeon Plas Ffrancon i Hen Barc ers blynyddoedd. Dadleuai bod y ffordd yn un hynod o brysur gan ei bod yn arwain i Carneddi a Rachub a'i bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan fysus. "Yn fwy na hynny," meddai, "mae nifer o gerddwyr yn ei defnyddio i fynd i'r ganolfan chwaraeon ac i Glwb Criced a Bowlio Bethesda ac yn ddiweddar dechreuodd y Cylch meithrin a Flying Start ddefnyddio Plas Ffrancon gan ychwanegu at y niferoedd sy'n defnyddio'r ffordd."

Wrth gwrs, fe wŷr y cyfarwydd bod Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Llanllechid o boptu'r ffordd ac mae hynny'n golygu bod llawer o ddisgyblion y ddwy ysgol yn



Y Cyngh. Dafydd Meurig

ei defnyddio'n ddyddiol. Mae'r holl ffeithiau hyn ynghyd â'r ffaith bod cynnydd mawr yn y traffig sy'n ei defnyddio yn ei gwneud yn beryg ac mae gwir angen llwybr troed arni.

Bellach mae'r penderfyniad i greu llwybr wedi ei gymryd a dylai'r gwaith ddechrau a rôl i'r cytundebau angenrheidiol gael eu cwblhau.

Meddai Meirion Williams, Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Chefn Gwlad Cyngor Gwynedd,

"Mae'r elfen dylunio bron wedi'i orffen. Yr unig beth sydd angen ei gwblhau yw cytuno gwyriadau i offer Dŵr Cymru a Scottish Power. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cytuno a'u trefnu, fe allwn fynd allan i dendr wedyn am y gwaith. Os yw popeth yn mynd yn iawn, mi ddylai'r gwaith gychwyn o fewn y ddeufis nesaf a dylai gymryd hyd at 10 wythnos i'w gwblhau."

Ychwanegodd Meirion Williams, "mae'n bosib y bydd rhaid trefnu i gau'r ffordd am gyfnod i hwyluso'r gwaith. Fodd bynnag, mi fydd hyn yn ddibynnol ar asesiadau risg y contractwr. Mi wnawn ni drafod hyn gyda'r contractwr unwaith y mae wedi'i benodi." Plas Ffrancon

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Gohebydd

Mi fyddai'n symud tŷ yn fuan, ac felly bydd angen gohebydd newydd ar gyfer Glasinfryn, Waen Wen a Chaerhun ar gyfer y Llais. Os oes gennych ddi-ddordeb, cysylltwch â mi ar y rhif ffôn uchod, os gwelwch neu dda, neu cysylltwch drwy e-bost. Tydi'r gwaith ddim yn feichus o gwbl. Mae'n bwysig fod gohebydd newydd yn cymryd drosodd neu mi fydd 'na fwelch yn y Llais a dim newyddion o Lasinfryn, Caerhun a Waen Wen! Diolch i bawb sydd wedi anfon newyddion ata'i dros y blynyddoedd.

Tymor newydd

Pob dymuniad da i bawb ohonoch chi yn yr ardal sy'n wynebu cyfnodau newydd yn eich bywyd fel dechrau ysgol neu goleg newydd, swydd newydd neu, efallai, ymddeoliad. Gwnewch y gorau o bob munud!

Croeso!

Croeso i Peter a Hilary Basterfield i Waen Wen. Maen nhw wedi symud o'u cartref blaenorol - Carfan, Pentir i Myrddin Gwyn. Pob dymuniad da iddyn nhw yn eu cartref newydd.

Bingo

Cynhaliwyd noson Bingo llwyddiannus yn y Ganolfan yng Nglasinfryn ym mis Awst, i hel arian ar gyfer trigolion pentref yn Kenya. Mae Alun Pritchard o Drefdraeth, Ynys Môn, wedi bod yn ymwelydd cyson â'r pentref ers deg mlynedd, ac mae wedi bod yn rhan o sawl prosiect i adeiladu tai a phuro pistyll er mwyn sicrhau dŵr glân i'r trigolion. Diolch o galon i bawb wnaeth gefnogi'r noson, gan gyfrannu at y swm o £120 a godwyd.

Sefydliad Y Merched Carneddi

Ar nos Iau, Medi 7fed, cawsom ein cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf. Rhoddodd ein llywydd groeso cynnes i bawb gan obeithio eu bod wedi cael gwyliau hapus, gartref neu dramor. Dim ond un oedd yn ymddeuheuro, sef Gwen Davies, sydd yn disgwyl mynd i ysbyty Gobowen yn fuan i gael penglin newydd. Pob lwc a chofion atat oddi wrth yr aelodau i gyd.

Yn ystod mis Gorffennaf yr oedd sioe Grefft a Chynnyrch yn y Ganolfan yn Llanberis ac fe gafodd aelod o gangen Carneddi, sef Jean Hughes, lwyddiant yno. Llongyfarchwyd Jean gan y llywydd a'r aelodau eraill ar ei llwyddiant. Pleser oedd cael dymuno penblwydd hapus i Margaret Williams, a gobeithio iddi gael diwrnod da yn ddathlu gyda'r teulu drannoeth y cyfarfod.

Darllenwyd cofnodion blaenorol y sefydliad gan Gwyneth Morris a'r llythyr misol a'i gynwys gan Rita Bullock, ein llywydd.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd y Parchedig Ddr. Huw John Hughes o Borthaethwy ond yn wreiddiol, wrth gwrs o'r Sling. Testun ei sgwrs oedd "Hel Atgofion". Dechreuodd drwy ddweud mai mynd yn bregethwr oedd ei fwriad er pan yn ifanc, ond ddaeth y freuddwyd honno ddim yn wir am rai blynyddoedd. Bu yn ddyfarnwr pel droed, yn athro a phrifathro yn ogystal â pherchennog Pili Palas yn Sir Fôn. Mae wedi bod yn Weinidog ers 40 o flynyddoedd erbyn hyn, ac yn awr yn troi ei law at ysgrifennu llyfrau i blant. Pob lwc iddo yn y fenter newydd yma.

Diolchwyd iddo gan ein llywydd, ac i'r merched am y baned. Enillydd y wobwr lwcus oedd Bess Buckley, yn rhodd gan Ceri Dart.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Bryisia wella

Yn ddiweddar treuliodd Ken Williams, Stryd Goronwy, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mae bellach wedi dychwelyd adref, ac rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau iddo am wellâd buan.

Urddo i'r Orsedd

Ddydd Llun cyntaf Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, fe urddwyd Linda Brown, Gwernydd, yn aelod o Orsedd y Beirdd. Llongyfarchiadau mawr i ti, Linda, ar yr anrhydedd haeddiannol; gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod yn fawr iawn.

Cydymdeimlo

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Phil a Shirley, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth fawr o golli Iestyn, partner eu merch Caryl. Pob cydymdeimlad i chi fel teulu; rydym yn meddwl amdanoch ar yr amser trist hwn.

Profedigaeth

Ddiwedd Awst fe frawychwyd pawb yn yr ardal pan glywsom am farwolaeth annisgwyl Ian Roberts, Ciltrefnus, ac yntau ym mlodau ei ddyddiau. Roedd

Ian yn berson adnabyddus i bawb, gan redeg busnes sgipiau, ac yn weithiwr caled. Roedd yn berson caredig, ac yn barod ei gymwynas. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'w bartner, Karen, ei feibion, Dylan, Siôn, a Mark, a'r teulu i gyd yn eu proedigaeth a'u galar.

Diolch

Dymuna Caren Brown, Ffordd Gerlan, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn ei damwain ffordd yn ddiweddar. Braf yw gweld Caren bellach wedi cael gwared â'r baglau, ac yn cerdded o gwmpas yr ardal.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr iawn gyda Martin, Lisa, Lwsi, a Betsi, Gwernydd, yn eu profedigaeth fawr o golli tad Martin, Bill Hoyland, oedd yn trigo yn Llundain. Meddyliwn amdanoch yn eich galar.

Symud tŷ

Ein dymuniadau gorau i David, Kerry, a'r plant, Ethan ac Evie, sydd wedi symud o Stryd y Ffynnon i'w cartref newydd yn Adwy'r Nant. Pob dymuniad da ichi fel teulu.

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Eurwen Morris, Garnedd Uchaf, sydd wedi cyfarfod â damwain, ac wedi ei torri ei braich. Ein dymuniadau gorau am wellâd llwyr a buan i chi, Eurwen.

Tai Fforddiadwy

Dyma Jennifer Bone a Pyrsi Llewelyn Lewis-Jones o Gerlan yn derbyn taleb o £25 i'w wario'n lleol, yn dilyn raffl holiadur tai fforddiadwy ardal plwyf Bethesda yn ddiweddar rhwng Cyngor Bethesda a Gwasanaeth yr Hwylusydd Tai Gwledig.

Mi gofiwch i holiadur tai fforddiadwy gael ei ddisbarthu ym mis Mawrth i ganfod angen am dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn ardal Bethesda, a chyn cyfarfod y cyngor cymuned mis Mehefin cyflwynwyd gwobr raffl oedd ynghlwm â llenwi'r holiadur yma.

Mae'r wybodaeth a ddeilliiodd o'r holiadur am yr angen wedi ei gasglu a'i ddadansoddi bellach ac mae yna dystiolaeth am yr angen sy'n bodoli yn yr ardal. Cyflwynodd Arfon Hughes, yr Hwylusydd Tai Gwledig, adroddiad i'r Cyngor oedd yn

cadarnhau bod cynifer â 76 yn dweud eu bod mewn angen symud o fewn yr ardal a nifer yn sôn am faterion fel tai yn rhy fach, yr angen am annibyniaeth ac angen gwaith trwsio fel rhesymau a bod prinder cynilion yn ffactor arall. Mae yna nifer o dai gwag yn yr ardal hefyd ac mae safle ger y Feddygfa wedi ei nodi fel safle posib ar gyfer cynllun tai, a fydd gobeithio, yn ateb gofynion rhai pobl leol sydd wedi ymateb i'r holiadur ynghyd â rhai sydd eto heb wneud. Bydd ymgynghoriad pellach yn digwydd dros y misoedd nesaf ble bydd modd cadarnhau hyn ynghyd â chadarnhau tystiolaeth cyswllt lleol a gallu pobl i dalu amdanynt.

Bydd croeso i'r rhai sydd heb ddangos diddordeb hyd yma ddod ymlaen bryd hynny, neu i



gofrestru ar wefan Tai Teg cyn gynted â phosibl - "y cyntaf i'r felin" fydd hi.

Bydd hysbysebion a gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn cael eu gosod

mewn mannau amlwg ac ar y we, a bydd rhai sydd wedi cynnwys manylion cyswllt yn yr holiadur yn cael neges i'w hysbysu yn uniongyrchol bryd hynny. Cadwch olwg amdano!

Tom Gwyn Jones (1944 – 2017)

(Wele isod ran o'r deyrnged a dalwyd gan y Parchg. Ddr. Huw John Hughes yn angladd y diweddar Tom Gwyn Jones, Creigle, Rhiwlas)

Mae'r ffôn yn canu. Pwy sy' yna rŵan? Mi ddylwn i 'nabod y rhif. Rhywun yng nghyffiniau Bangor. Ateb. Llais parchus yr ochr arall.

'Mi ydach chi efo ni Sul nesa.'

'Na. Dydw i ddim yn meddwl.'

A minnau'n gwybod yn iawn mai gwraig ydi ysgrifenyddes y capel yng nghyffiniau'r Wyddgrug - lle roeddwn i i fod y Sul nesaf.

'Ydach, mae o lawr ar y plan. Mi ydach chi wedi cael copi yn do?'

'Do.'

Edrych yn frysiog yn fy nyddiadur a sylwi fy mod i yn Pisgah y Sul canlynol. Adnabod y llais. A phenderfynu fy mod innau'n mynd i chwarae'r gêm.

'O, chdi sy'na Gwyn?'

'O'n i'n meddwl na fasat ti ddim yn adnabod y llais. Heb siarad ers tro,' meddai yntau.

'Wedi bod reit brysur mis dwythfa 'ma. Efo'r Annibynwyr yn Wyddgrug Sul nesa 'ma ac yna Sul wedyn yn Nyffryn Ardudwy a Sul wedyn yn.....'

'Be! dwyt ti ddim yn Nyffryn Ardudwy y Sul wedyn, mi wyt ti efo ni yn Pisgah.'

'Wel nac ydw.' A dal i chwarae'r gêm nes ildio yn y diwedd.

Ac felly bydda hi droeon. Gwyn y tynnwr coes, llawn direidi yr hwyl a'r sgwrs yn dod i ben fel hyn, 'Mi fyddai'n siŵr o'i chael hi'n ôl pan ddoi di draw.' Nabod ein gilydd ers dyddiau'r ysgol Uwchradd ym Methesda ond Gwyn yn hŷn nag oeddwn i fel byddwn i'n hoffi dweud wrth fo - dim ond rhyw gwta flwyddyn!

Hogyn o Rhiwlas. Y fo oedd piau Rhiwlas a Rhiwlas oedd piau fo. Yn ail blentyn i William Arthur ac Annie Jones. Annie ei fam yn hanu o Bensarn, Môn a'i dad o Rhiwlas. Saith mlynedd rhyngddo fo â Heulwen, ei chwaer hŷn. Addysg gynradd yn Rhiwlas ac yna i Ysgol Dyffryn Ogwen yn fwrlwm o ddireidi, arian byw o hogyn. Arthur a Sammy oedd ei ffrindiau gorau yn yr ysgol ond roedd pawb yn ffrind i Gwyn rywsut gan ei fod o i fyny â phob math o ddireidi. Miss Eluned Davies, yr athrawes Gymraeg wrthi'n rhoi gwers i'r dosbarth ond yn ddiarwybod iddi hi roedd yr hogia, a Gwyn yn eu plith wrth gwrs, wedi gosod darn o linyn ar hyd nenfwd yr ystafell ddsbarth ac yn araf,

uwchben Miss Davies roedd tegan o bry cop anferth yn cael ei ollwng yn araf nes yn y diwedd dyma'r anghenfil yn cyffwrdd â'i phen. Sgrech annaeorol! Mynd, amser cinio i lawr i'r stryd, yn groes i ddymuniad Mr Pardoe, y pennaeth a chael sbri o chips, myffins a photel o lemonêd ar lan yr Afon Ogwen. Herio'r awdurdod, fel 'roedden ni i gyd.

Ar ôl sefyll yr hen lefel O, gadael yr ysgol, rhyddhad i'r athrawon dwi'n siŵr, a dechrau gweithio fel clerc yn Chwarel y Penrhyn yn gyfrifol am gyflogau'r chwarelwyr. Roedd ei Yncl John, brawd ei dad yn stiward yn y Chwarel. Yno y bu am ryw bum mlynedd cyn clymu'i hun mewn priodas â Charol.

Ar ôl ffarwelio â'r Chwarel aeth i ddechrau gweithio i Adran Tai, Cyngor Bangor yn delio efo pobl oedd yn chwilio am dai cyngor. Dwy flynedd y bu yn y swydd honno ac mi gafodd swydd yn Adran Stadau, Coleg y Brifysgol ac yno y bu tan ei ymddeoliad yn 1998. Ond doedd Gwyn ddim yn mynd i ymddeol. Mi ddechreuodd weithio wedyn efo Cyngor Sir Gwynedd yn sicrhau bod bysus bach y wlad a bysus ysgol yn cadw i'w hamser. Mi fydda fo hefyd yn mynd a thaffenni amser o gwmpas y Sir efo fan bwrpasol ac mi fydda ganddo declyn penodol i brofi bod yr amseroedd yn gywir, rhai symudol yn rhoi gwybodaeth i'r teithwyr pryd y byddai'r bws nesaf yn cyrraedd. Yn Nhremadog wrth ymyl yr orsaf bysiau a dyn yn aros am y bws, dyma Gwyn ddireidus yn tanio'r teclyn a dyma 'na lais yn dweud pryd y byddai'r bws nesaf yn cyrraedd. Mi neidiodd y truan wedi dychryn yn lân. Gwyn wrth gwrs.

Oherwydd iechyd dyma ymddeol a Carol yn gwneud yr un peth. Mi roedd Osian wedi cyrraedd - canwyll ei lygad. Meddwl y byd ohono ac Osian a meddwl y byd ohono yntau. 'Mae'n rhaid i mi fynd rŵan isio mynd i nôl yr hen foi bach yn dod o'r ysgol.' Dyna fyddai'r frawddeg i gloi pob sgwrs ffôn.

Rydan ni wedi crybwyll direidi a doniolwch Gwyn ond mi roedd 'na ochr arall - difrifoldeb. Ac mae hyn yn amlygu'i hyn yn ei gyfraniad i'w gapel ac i'w enwad. Bu'n organydd yn y capel. Roedd ei dad yn ysgrifennydd Capel Pisgah a phan dorrodd ei iechyd dipyn dros ugain mlynedd yn ôl mi ddaeth Gwyn i'r adwy a chymryd y gwaith o ysgrifennydd yr Eglwys o ddifrif a dyna pam yr oedd o'n ffonio o gwmpas ac yn dod yn ffrindiau

efo amryw o weinidogion a phregethwyr ledled y Gogledd. Yng nghanol y 60'au fe gymerodd y cyfrifoldeb o fod yn Oruchwyliwr Cylchdaith Arfon ac yn ddiweddarach Arfon a Môn. A rhyw dair blynedd yn ôl cymerodd y swydd o fod yn Drysorydd Synod Cymru oedd yn golygu pwyllgorau dirifedi ond roedd Gwyn a Carol, tîm Creigle, yn gwneud y gwaith yn drylwyr a chydwybodol.

Am ugain mlynedd bu'n drysorydd y papur bro, Llais Ogwan, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd wrthi'n ddiwyd yn plygu'r papur a Gwyn i fyny i'r rhifyn diwethaf un, oedd yn gyfrifol am ddsbarthu'r papur o gwmpas ei filltir sgwâr.

Sut mae crynhoi personoliaeth Gwyn? Mi rydw'i eisoes wedi cyfeirio at ei ddireidi ar y naill law a'i ddifrifoldeb ar y llall ond roedd y ddwy elfen yma'n asio'n un ym mhersonoliaeth Gwyn. Roedd yr hwyl a'r miri yn denu plant ac mae Osian ei wŷr, canwyll ei lygad a Heledd a Morgan, nai a nith iddo wedi cael modd i fyw yn ei gwmmni. Y fo yn cadw'r plant yn ddiddig a Carol yn eu bwydo. Cyfeiriodd y Parch Gwynfor Williams ato y noson o'r blaen, 'mi ydw i wedi colli brawd ac yn fwy na hynny mi ydw i wedi colli fy llaw dde.' Ac mi ydan ni'n cofio am ofal bugeiliol Gwynfor yn arbennig yn ystod gwaeledd Gwyn.

Roeddwn i wedi meddwl traethu am Gwyn o dan benawdau penodol megis cymêr, cartref a chapel, y tair 'c' ond roedd rhain yn rhy glinigol, rhy ffurfiol, rhy bregethwrol i bersonoliaeth mor fyrlymus ac amlochrog. Ond petawn i wedi dilyn y trywydd hwn mi fyddai un 'c' arall yn amlygu'i hun ac yn codi i'r brig - Cymro i'r carn. Roedd yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r traddodiadau Gymraeg a Chymreig yn llywodraethu ei fywyd a chael addoli yn y Gymraeg yn wefr wythnosol iddo yng nghapel Pisgah. Addoli yn y Gymraeg a dyrchafu Duw yn Iesu Grist oedd yn nodweddu ei ffydd ddiysgog, gadarn a'r ffydd hon a'i cynhaliodd ar hyd ei oes.

Sut mae cloi? Trwy gydymdeimlo'n ddwys â Charol, Caren, Dyfed ac Osian a'r teulu i gyd. Mi fydd gan y teulu atgofion melys iawn ohono ac rydyn ni yn diolch i Dduw am ei fywyd, am ei esiampyl ac am gael cerdded rhan o bererindod bywyd yn ei gwmmni. Diolch Gwyn am sirioli ac ysgafnau'r daith. Da was da a ffyddlon.

David Vincent Davies yn ymateb i ddau ddarn a ymddangosodd yn rhifyn Gorffennaf o'r Llais

Derbyniodd Fiona Cadwaladr Owen, aelod o banel golygyddol Llais Ogwan, neges ebost gan Karen Bates, merch David Vincent Davies o Swydd Bedford. Yn y neges fe ddywed Karen ei bod yn ysgrifennu ar ran ei thad oherwydd ei fod â diddordeb mawr yn rhifyn Gorffennaf o Llais Ogwan ac yn arbennig y ffaith fod Dafydd Gwilym Jones wedi dal ei afael yn y darlun a wnaeth ei thad mor bell yn ôl pan oedd yn ddarpar athro yn Ysgol Penybryn.

Fel y dywed Karen, "Aeth Dad ddim ymlaen i fod yn athro ond fe gafodd yrfa lwyddiannus fel dylunydd diwydiannol gyda Bernard Wardle yng Nghaernarfon. Daliodd ati i baentio yn ystod ei amser sbâr gan arbenigo mewn paentio tirluniau o Gymru ac fe gafodd ei luniau eu harddangos mewn sawl arddangosfa".

Yn ail, roedd gan David Davies ddiddordeb yn y gyfres am y Rhyfel Byd Cyntaf gan Andre Lomosik. "yn y llun cyntaf mae ewythr i fy nhad, sef David Davies arall, (a adnabyddid fel Dai) ac yn frawd i William Arthur Davies, Adwy'r Nant ac yn fab i John Davies, Pantglas, Bethesda. Bu Yncl Dai'n gwasanaethu yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Mawr a gwelodd frwydro yn Ypres, er na siaradodd o ddim am hynny."

Ar ôl gweithio i ddechrau yn Chwarel y Penrhyn, agorodd siop yn 12, Pant Glas a chyda ei wraig Mary buont yn cadw busnes llywyddiannus yno am lawer o flynyddoedd. "Mae Dad yn berchen yr un llun o Yncl Dai (a ymddangosodd gan Andre) ynghyd â llun arall o John Davies, Mary Davies a Dai Davies y tu allan i'r siop ym Mhantglas ym



David (Dai) Davies yn ei lifrai milwr.

Mis Medi 1954", meddai Karen.

Mae Karen hefyd yn atodi llythyr arall, gan Yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis y tro hwn. Yn y llythyr mae cyfeiriad at y llun sy'n dangos Yncl Dai yn hongian wrth raff ar wyneb y graig yn Chwarel y Penrhyn.

Gweler ddau o'r lluniau a yrrwyd gan Karen - yn anffodus nid yw'r trydydd llun o Dai ar wyneb y graig yn ddigon clir i'w atgynhyrchu yn y Llais.



John, Mary a Dai Davies y tu allan i Siop Pantglas ym 1954.

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyro ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Côr y Penrhyn y dyddiau a fu



Wyn Thomas o Abertawe ond o'r Gerlan gynt yn cofio Côr y Penrhyn y dyddiau a fu

Pleser misol ydi gweld y copi diweddaraf o Llais Ogwan yn cyrraedd drwy'r post. Er i mi adael Bethesda am y 'Sowth' yn 1967, Bethesda o hyd ydi ardal fy mebyd a'r lle a roddodd gyfeiriad a llyw i'm bywyd. Mae'n bwysig felly cadw mewn cysylltiad trwy deulu fel Linda Brown a'm ffrind bore oes, Dr John Elwyn Hughes, a thrwy ddarllen y Llais.

Mae darnau am atgofion, hanes y dyffryn, digwyddiadau ym Methesda, Braichmelyn, a fy hen ardal, Gerlan, a 'Pwy Sy'n Cofio Ddoe', yn dod â llawer o bleser. Gwaetha'r modd, dw i'n adnabod mwy a mwy o bobl sydd yn cael eu cofio mewn marwnadau yn y Llais, rhywbeth sydd yn fy atgoffa fy mod innau'n heneiddio. Pam mae amser yn cyflymu fel yr ydych yn mynd yn hŷn? Yn ddigon hen, yn wir, i gofio milwyr fel fy ewythr Twm, tad Mrs Doris Jones, Maes Coetmor, a oedd yn 'bugle boy' yn Ffrainc yn y Rhyfel Mawr, a chael het ledr ddu gyda sbeic ar ei thop gan gynfilwr o'r Gerlan a oedd wedi ei chymryd oddi wrth Almaenwr (neu Germaniad fel roedd ambell hen filwr yn ei dd'eud) pan ddaeth diwedd y Rhyfel Mawr ym 1918. Diolch i'r Llais am gydnabod y lladdfa fawr. Cefais y pleser o weithio gyda'r Athro Dr Alan Llwyd yn gwneud rhaglenni teledu am y rhyfel a 'gwaedd y bechgyn', ac mae'n fraint cael darllen y cerddi a ddarparodd ar gyfer cofio'r can mlynedd ers cychwyn ymosodiad erchyll Passchendale eleni. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn ei gyfrol nesaf o farddoniaeth, gwledd arall gan Alan. Bydda'r Prifardd hefyd yn falch fod colofn Nyth y Gân yn ein papur bro. Mae'n dda gweld Dafydd Morris, y bachgen direidus dw i'n ei gofio

yn Ysgol Pen-y-bryn, erbyn hyn yn fardd o fri. Credwch chi fi, mae'r rhain yn haeddu marciau gorau'r meyrn mewn ymryson rhwng cerddi'r Llais a rwtsh Saesneg gwarthus o wael sydd yn cael ei gyhoeddi yn y South Wales Evening Post.

Un o'r pleserau cyson a gaf bob mis ydi darllen colofn Derfel Roberts, 'Côr y Penrhyn'. Mae'r atgofion a'r hiraeth yn byrlymu wrth ddarllen hanes a digwyddiadau'r côr a'r portread o'r aelodau. Roedd y côr yn rhan bwysig iawn o'm plentyndod, gan i'r canu a'r pysgota ddod â chymaint o liw a phleser i fywyd fy nhad, Ben Thomas. Roedd wedi bod ynglŷn â chanu o fore'i oes gan ei fod yn un o ddisgynyddion 'Teulu Tŷ Hen', y teulu o delynorion, baledwyr a cherdd-dantwyr, o'r pentref a gladdwyd dan domennydd Chwarel y Penrhyn. Roedd fy nhad yn aelod o un o gorau'r ponciau yn y chwarel, y corau a ddaeth ynghyd i ffurfio 'Côr Meibion y Penrhyn' ym 1935. Dyma sut y disgrifiodd y diweddar Elfed Jones yr hanes yn ei lyfryn, Côr Meibion y Penrhyn Ddoe a Heddiw, ym 1984:

Roedd 'Steddfod Peniel, Llanllechid, yn un o'r eisteddfodau mwyaf llwyddiannus a llewyrchus yn y cylch yn y tri degau. Bu hon, fel llawer o eisteddfodau eraill, yn gefn i ddywylliant cyfoethog y dyffryn ... Bu llawer 'steddfod yn y llan ond mae'n debyg mai'r hon a gafodd y dylawnad mwyaf oedd y 'steddfod a gyhaliwyd ym mis Tachwedd 1934. Trefnwyd cystadleuaeth i gorau meibion yn cynrychioli'r chwarel pan ymgeisiodd saith côr o'r gwahanol bonciau. Y darn gosod oedd 'Gorffwysfa Di' a chôr Ponc Lord a Ledi oedd y buddugwyr. Yn ei feirniadaeth, awgrymodd Dr Caradog

Roberts y dylid uno'r corau i ffurfio côr mawr, a buddiol cofnodi mai ar anogaeth y cerddor enwog o'r Rhos y sylfaenwyd Côr Meibion y Penrhyn.

Yn fuan wedi'r 'steddfod, cynhaliwyd y pwyllgor answyddogol cyntaf ar ganol Ponc Ledi tua diwedd Tachwedd 1934. Yno y cyfarfu Idwal Lloyd Owen, Ben Thomas a Pys Bodfeurig i drafod y posibilrwydd o ffurfio côr ... ni fu rhaid disgwyl cyn hir cyn cael hanner cant o'r hogia i gyfarfod yn Ysgol y Cefnfaes yn gynnar ym 1935. Chwarelwyr yn byw yn yr ardal oedd yr aelodau i gyd ond erbyn heddiw mae'r cylch wedi lledu cryn dipyn.'

Dw i mor ddiolchgar i Elfed Jones am gofnodi'r hanes yma, a mater o falchder mawr i mi ydi cysylltiad fy nhad â chychwyn y côr.

Roedd llun o'r côr bob amser ar wal y gegin yn Stryd Goronwy, ond roedd dad yn ofalus o ba lun oedd yn cael ei fframio. Os oedd y llun wedi ei dynnu yng nghanol yr haf, yna prin roedd dad eisiau ei weld. Roedd yn gwybod bod effaith yr haul ar ei groen, o ganlyniad i'r pysgota a gweithio'n tarmacio lonydd y cyngor sir, yn ei droi i edrych fel un o'r 'Black and White Minstrels' yn ei farn o. O edrych ar broffion o fy DNA yn ddiweddar, daeth yn amlwg fod teulu fy nhad, ganrifoedd yn ôl, wedi ymfudo i Gymru o ardaloedd poeth y Môr Tawel; dim rhyfedd, felly, ei fod o, fel fi, yn troi'n debyg i Sbaenwr wedi cyfnod byr yn llygad yr haul, a does dim angen 'bola heulo' ys d'wedir yn y rhan hon o Gymru. Mae'r llun uchod o'r côr ym 1947, ar ôl ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mae Colwyn, gyda Ffrancon Thomas yn arwain ac Arnold Lewis yn cyfeilio, yn dangos y lliw haul oedd

yn poeni 'nhad; mae o i'w weld yn amlwg yn seithfed o'r chwith yn y drydedd res.

Y trydydd o'r chwith yn yr ail res ydi Harry Williams o'r Gerlan neu 'Harry John Sam, fel y gelwid o gan bawb, ac yn unol â'r hen arfer Cymreig o adnabod person wrth ei ei dad. Roedd yntau hefyd yn un o blant 'Teulu Tŷ Hen' ac wedi etifeddu llais tenor fel cloch. Adwaenid ei dad, John Samuel Williams, fel 'Pencerdd Ogwen' a roedd Gwynn Tregarth, Ceidwad y Cledd yn yr Orsedd, neu Gwynn Dob i bawb yn Nhregarth a Bethesda, yn rhan o'r un gangen o'r teulu, fel y mae Euryn Ogwen Williams a'i deulu o ddarlledwyr.

Mawr oedd y parch at Harry Williams gan hogia'r côr, oherwydd ei lais hyfryd a'i gymeriad cryf a'i safonau uchel. Roeddwn yn aml yn gofyn i 'nhad ail-ddweud straeon y côr, ac un o'r ffefrynnau oedd honno am y daith faith i'r Eisteddfod yn Abergwaun ym 1936. Oherwydd y pellter, y lonydd cul a bysys yr oes, aros yn Sir Benfro mewn rhyw gwt neu'i gilydd fu raid i'r hogiau'i wneud. Cyn cysgu, roedd rhai wedi methu setlo ac yn cadw reiat nes i un ollwng gwynt yn hir, uchel a drewllyd. Mawr oedd y chwerthin nes i Harry Williams gael llond bol, codi i eistedd yn ei wely, a dweud y drefn ac atgoffa pawb i gofio pwy oeddynt a'u bod yn cynrychioli eu hardal a'u côr ac i ymddwyn yn llawer mwy parchus. Distawrwydd a chwsg oedd yr ymateb.

Ond daeth siom enfawr i Harry Williams yn ei dro. Roedd y côr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli, 1955, ac roeddwn yno gyda mam i gefnogi'r côr. Y darnau oedd 'Llawenydd yr Heliwr' o'r opera 'Der Freischütz' gan Carl Maria von Weber ac, yn ail, Englynion Coffa Hedd Wyn gan R. Williams Parry ar y dôn Troyte's Chant gan y cyfansoddwr Arthur Henry Dyke Ackland, a newidiodd ei enw'n Troyte ym 1852. Roedd y trefniant yn gofyn am un tenor i ddechrau'r cyflwyniad drwy ganu 'Y bardd trwm dan bridd tramor, y dwylo na ddidolir rhagor ...' cyn i'r côr i gyd ymuno yn y gân. Yna, disgwyl am y feirniadaeth mewn chwys oer, a dim siawns o ymlacio i'r hogiau a lladd syched gan nad oedd gwerthu cwrw yn yr Eisteddfod yn y cyfnod hwnnw. Pan ddaeth y feirniadaeth a barn am berfformiad hogia'r Penrhyn, roedd y broliant i'w dehongliad o 'Llawenydd yr Heliwr' yn well na nag i unrhyw gân arall yn y gystadleuaeth, bron â chyrraedd cant y cant. Ond dyma ni'n dod at yr 'ond', y gair yr oedd yn fy nhad yn ei ofni ym mhob beirniadaeth. 'OND' yn y darn am Hedd Wyn, roedd y côr yn wych eto ond, yn anffodus, roedd y tenor agoriadol wedi gorffen ei unawd yn fflat ac felly'n dod a'r côr i gyd i mewn ar y nodyn anghywir. Oherwydd hynny, ail ddaeth y côr yn yr Eisteddfod honno a mawr oedd y baich ar Harry Williams. Fe gymerodd y bai yn llwyr er ei fod o a phawb arall yn y côr yn sicr na fyddai Harry byth yn canu dim ond y nodau

cywir a, beth bynnag, dewis gwael ar ran yr Eisteddfod oedd gofyn am drefniant oedd yn galw am i un aelod o gânario'r baich o arwain y côr cyfan i mewn i weddill y gân.

Fel roedd yn digwydd, roedd 'na babell ar faes yr Eisteddfod honno ble'r oedd cwmni'n recordio cystadlaethau ac yn gwerthu recordiau o berfformiadau ar ddisgiau 78 tro y funud. Archebodd mam gopi o Gôr Meibion y Penrhyn yn canu Englynion Coffa Hedd Wyn a mawr oedd y disgwyl iddi gyrraedd acw yn y post. Ymhen hir a hwyr fe ddaeth y record ac mi fûm yn gwranddo arni drosodd a throsodd. Roedd Harry Williams yn gwybod bod y record acw ac am nosweithiau, wedi swpar chwarel, byddai'n dod i lawr Stryd Goronwy acw i glywed ac ailglywed ei berfformiad, roedd yn dod â fforc diwnio efo fo i weld a oedd o wedi taro'r nodyn cywir neu beidio. Nid oedd dadlau gyda'r fforc diwnio, roedd Harry wedi arwain y côr i mewn yn berffaith. Ond nid oedd posib troi'r cloc yn ei ôl, fel aml i gêm rygbi neu bêl droed, os oedd y 'ref' wedi gwneud camgymeriad ac yn methu dyfarnu a oedd gôl neu gais wedi'i sgorio, rhaid oedd derbyn ei farn. Felly, gair y beirniad oedd yn sefyll a rhaid oedd derbyn mai ail oedd y côr er yr annhegwch a deimlai'r aelodau, a Harry'n arbennig, am amser maith.

Ond er cymaint y siom, mae'r parch at 'Harry John Sam' yn parhau ac yr oedd, fel y d'wedodd Elfed Jones, yn 'gefn i ddiwylliant cyfoethog y dyffryn'.

Mawr ydi fy mharch i at y côr a'm balchder

am ran fy nhad yn ei hanes. Roedd yn rhan o'm plentynod; cael fy magu yn sŵn caneuon ac emynau traddodiadol Cymru, yn ogystal â darnau o opera, a bu caneuon fel 'Martyrs of the Arena', 'Crossing the Plain' a'r 'Pren ar y Bryn' yn rhan o fy nghefnidir cerddorol. Wedyn, daeth ambell newid modernaidd a'r côr yn ymdopi â heriau fel 'Dana Dana' a darnau tebyg. Nid oedd mentro i lefydd tramor y dyddiau hynny, y daith bella oedd mynd i Eisteddfodau yn y de. Dw i'n cofio mam ar ei thraed nos wrth y ffenest yn poeni a oedd yr hogia'n ddiogel ac yn edrych trwy'r tywyllwch am olau bws yn mynd ar y lôn bost i gyfeiriad y cae ffwtbol a fyddai'n arwydd eu bod nhw wedi cyrraedd yn ôl adref. Yn y gogledd, byddwn yn mynd i'r Eisteddfod ar Sadyrnau i ddilyn y côr ac un o f'atgofion cyntaf ydi bod ar ysgwyddau fy nhad pan oedd yr hogiau'n cario'u harweinydd, Ffrancon Thomas, ar eu hysgwyddau wedi ennill ym Mae Colwyn ym 1947. Dyma fi yn y llun isod, neu ran ohonof, gyda mam a 'nhad ac aelodau eraill o'r côr wedi iddynt gystadlu yn Eisteddfod y Rhyl ar Awst 8, 1953.

Gwaetha'r modd, ni chefais enynnau cerddorol Tŷ Hen yn rhan ohonof ac os oes atgyfodiad i fod, fy nymuniad ydi cael dod yn ôl yn glamp o denor. Yn y cyfamser, diolch am atgofion melys Côr Penrhyn ac am roi sylw ardderchog i'n dyffryn a'i draddodiad a'i etifeddiaeth, hir fydded i'ch cân barhau.

**Wyn Thomas,
10 Clos-y-Maerdy,
Pentre'r Ardd.**



Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygái

Gweithgareddau'r Haf

Cynhaliwyd Offeren Arbennig ar Orffennaf 16eg i gyflwyno cyfieithiad dwyieithog o feddargraff Lladin yr Archesgob John Williams gan frodorion Coleg St Ioan Caergrawnt. Mae'r beddargraff yn clodfodi doniau a llwyddiannau y bachgen o Ystad Cochwillan a greodd yrfa ddisglair iddo'i hun fel Archesgob Caerefrog yn yr Eglwys ac fel gwleidydd pwerus yn Llys y Brenin Iago y 1af.

Daeth cynulleidfa oedd Bro Ogwen at ei gilydd yn Eglwys Sant Tegai ar Orffennaf 23ain ac ar Awst 27ain i gynnal gwasanaeth yn y dull Taizé, ble mae myfyrdod, gweddi a chân yn plethu'n drawiadol mewn awyrgylch tawel ac unigryw.

Mae'r Eglwys yn ddiolchgar iawn i'r teulu Leverett am gynnal bore coffi mor llwyddiannus ym mis Awst i godi dros £270 at y Gronfa Atgyweirio. (Gweler newyddion y pentref am fanylion yr achlysur)

Ar bnawn Sadwrn Gŵyl y Banc, Awst 26ain cynhaliwyd Garddwest St Tegai ym Mharc Penrhyn drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Richard Douglas Pennant. Cawsom wledd o adloniant yn y babell tra'n mwynhau bwyd blasus a thywynnodd yr haul i lawr ar ein hymdrechion. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr achlysur, boed ar stondinau, yn gwerthu raffi neu yn cario'r nwyddau. Codwyd £857 at Gronfa Atgyweirio St Tegai.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Nia a John Bagnall ar ddathlu eu penblwydd priodas ar Awst 26ain. Ymlaen am y 33 mlynedd nesaf rŵan! Pob dymuniad da hefyd i Gwenan Llewelyn Jones ar ddechrau ei gyrfa fel cyfreithwraig gyda chwmni Macfarlanes Chancery Lane Llundain.

Cydymdeimlo

Gyda thristwch rydym yn cofnodi marwolaeth Mrs Margaret Roberts, Haulfre, gwraig y Parchedig J. Aelwyn Roberts. Cynhaliwyd yr angladd yn amlogsgfa Bangor ar ddydd Mercher Awst 31ain. Mae llawer yn cofio gwaith amhrisiadwy Mrs Roberts gyda Chymdeithas Maethu yr Eglwys Anglicanaidd yng Ngogledd Cymru. Anfonwn ein cydymdeimlad i'w gweddwr a'i phlant sef Jane, Mark, Bridget, Felicity, Siôn, Zoë ac i'r teulu oll. 'Roedd y Parchedig Aelwyn Roberts yn 99 oed ar ddiwedd mis Awst.

Daeth yr awr!

Braf yw cael cofnodi fod y gwaith o atgyweirio'r eglwys wedi cychwyn gyda'r dasg bwysig o glirio asbestos o lofft yr organ. Bydd mwy o dasgau yn cael eu cyflawni'n raddol dros y misoedd nesaf ond o leiaf mae yna ddechrau ar y gwaith mawr ar ôl yr aros hir!

Cymdeithasu fel cynulleidfa

Erbyn i'r rhifyn yma ddod allan bydd Gyrfa Chwilen yn Neuadd Talgai wedi dod â phleser i griw selog o gefnogwyr yr Eglwys. Liz Bestwick oedd yn gyfrifol am drefnu y noson ar Fedi'r 5ed am 7 o'r gloch. Hefyd bydd Marchnad Ogwen wedi rhoi cyfle i godi arian i St Tegai ar eu stonidin achos da arferol. Diolch i'r pwyllgor am eu parodrwydd i gynnig stonidin i'r eglwys.

Darlith ar Hanes yr Eglwys a'r Pentref

Ar Fedi 26ain am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai bydd darlith yn Saesneg ar "Gloddiad Hanesyddol Cell Sant Tegai a'r Pentref Oes Efydd" gan Francis Lynch MBE MA FSA. Bydd llawer ohonoch yn cofio'r cloddiad hanesyddol yma ar safle stadau diwydiannol Llandygái a Bryn Cegin, felly mae'r darlith i bawb sydd â diddordeb yn hanes lleol Dyffryn Ogwen. Dewch i wrando a dysgu mwy am eich hardal! Tocynnau £5 wrth y drws. Croeso i bawb!

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai dros fisoedd Medi ac Hydref

Medi 3	Yr Offeren am 9.30 y. b.
Medi 10	Yr Offeren am 11.00 y.b. Gwasanaeth Taizé am 5.00 y pwnn
Medi 17	Dim gwasanaeth. Diolchgarwch 10.30 y.b. yn St Cross Talybont
Medi 24	Dim gwasanaeth. Diolchgarwch am 10.30 y.b. St Mair Tregarth Diolchgarwch (Cymraeg) am 5.00 y pwnn yn Eglwys St Mair Tregarth
Hydref 1	Diolchgarwch Sant Tegai am 10.30 y.b.
Hydref 8	Diolchgarwch eglwysi Bro Ogwen am 5.00 yn Sant Tegai

LLONGYFARCHIADAU i Billy Hayes, 1

Bryn Cottages am lwyddo i gael 4 A* yn ei arholiadau Lefel A.

Mae Billy'n brif fachgen yn Ysgol Friars. Pob hwyl iddo yn y coleg yng Nghaergrawnt.

Bore Coffi

Cafwyd bore coffi llwyddianus yn Walnut Cottage yn ddiweddar. Gwnaed elw o £280 at adnewyddu to yr Eglwys. Diolch i Mererid, Brian, Cara a'r teulu am y croeso.

Barbeciw

Diolch i Jane a Kathryn, 4 Llandygái am y croeso a'r wledd a gafwyd i'r pentrefwyr yn eu cartref ar ddydd Sadwrn, 29ed o Orffennaf.

Gwellhad buan

I Lis Jones, 21 Pentref Llandygái. Bu rhaid iddi dreulio rhagor o amser yn Ysbyty Gwynedd.

Rhagrybudd o Ddarlith Flynyddol yr Archesgob John Williams

Trydedd Ddarlith Goffa yr Archesgob John Williams:
"ARCHESGOB JOHN WILLIAMS A HARDDWCH SANCTEIDDRWYDD?"
Sgwrs yn Saesneg gan y Doctoriaid Clive Holmes a Felicity Heal (y ddau o Brifysgol Rhydychen) am 19:00 Nos Wener 20 Hydref 2017
Nos Wener Hydref 20fed am 7 o'r gloch yn Eglwys Sant Tegai Llandegai
Mynediad yn £5 a lluniaeth i ddilyn

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
logsi coed

01248 605207

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

山田派系東流修交会空手道

KARATE-DO

Y FFORDD WAGLAW

KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Ffrancon

Dwy wers gynta am ddim

- HUNAN AMDDIFFYN - HUNAN HYDER -

- FFRYWYDD - DISGYBLAETH - PARCH -

SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO

(TRADDODIADOL)

- * £35 y mis disgownt teuluol
- * Dim Cytundeb, Dim Cytfeirnod Debyd
- * Strwythur Graddio Traddodiadol
- * Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Byd 2007
- * Pennaeth Soke Yamada Sensei 10fed Dan o Japan

NOS FAWRTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED
AC OEDOLION

I SICRHOU EICH LLEYN Y GLWB:

FFON: 07595 361624
Ehost: shukokaiwales@icloud.com
Y WE: www.shukokai-wales.com

hoff ni ar facebook
facebook.com/shukokainorthwales

gair neu ddau

John Pritchard

Phoenix a Reno

Heno, ar nos Fercher braf ddiwedd Awst, mi wnes i rywbeth annisgwyl; rhywbeth eithaf brawychus. Echnos, roedd Donald Trump yn annerch torf yn Phoenix, Arizona; neithiwr, roedd yn annerch yr American Legion yn Reno, Nevada; a heno, mi wrandewais ar y ddwy araith. Pum munud ar hugain yn Reno ac awr a chwarter yn Phoenix: bron i ddwy awr o fytheirio, dyrchafu 'America', lladd ar y Wasg, dirmygu pob beirniad a beirniadaeth, a'i ganmol a'i gyfiawnhau ei hun. Ac wedi dwy awr o wyllo a gwrando, y peth cyntaf sy'n taro dyn yw bod yr Arlywydd wedi treulio cyfran helaeth o'r amser yn sôn amdano ei hun.

Mae gan yr Arlywydd Trump feddwl mawr ohono'i hun. Fyddai o ddim yn gwadu hynny wrth gwrs. Mae'n ddyn rhyfeddol o falch, ond mae hefyd yn rhyfeddol o ffôl. Mae'n dweud pethau gwirion; mae'n rhaffu celwyddau; mae'n anghyson; mae'n anghyfrifol; mae'n afresymol; mae'n anoddefgar. Gellid o bosibl oddef yr holl wendidau hyn. Wedi'r cwbl, does neb, hyd yn oed arlywyddion, yn ddi-fai. Ond gwaeth na'i falchder a'i annoethineb a'i dwpdra yw'r ffaith ei fod, oherwydd y nodweddion hynny, yn ddyn peryglus. Mor arswydus yw hi fod yr Unol Daleithiau, a'r byd mewn rhyw ystyr, yn nwylo'r fath un.

Beth bynnag eich tueddiadau gwleidyddol, mi ddylai'r Arlywydd hwn eich anesmwytho. Oherwydd pwy a wŷr beth ddywed neu beth wnaiff nesaf? Gwrandewch arno. Edrychwch arno. Clywch o'n galw am undod er mwyn America a'i holl drigolion, ond gwylwch o'r un pryd yn crechweni a gwgu wrth edrych yn fileinig ar unrhyw un sy'n meiddio codi llais yn ei erbyn. Clywch y dorf yn udo wrth gymeradwyo a phorthi pob sylw cas. A chlywch ei gablu wrth iddo honni ei fod yn gwneud y cyfan 'er mwyn America ac er mwyn Duw'. Mae'n ddychryn fod Trump yn cael cefnogaeth cymaint o Gristnogion y wlad honno, yn cynnwys Franklin Graham, mab yr enwog Billy Graham, a oedd yn gweddio ar y llwyfan cyn iddo siarad yn Phoenix.

Wn i ddim beth oedd gweddi Franklin Graham y noson honno. Mae'n debyg iddo weddio dros yr Arlywydd a thros America. Roedd Mr Trump yn ddiolchgar iawn iddo beth bynnag (er nad oedd yn rhy sicr o'i enw, gan iddo ddiolch i 'Franklin Grym').

Go brin y byddai Mr Trump yn diolch i ni am awgrymu fod angen gweddio dros yr Unol Daleithiau. Ond gwnawn hynny, gan weddio dros Mr Trump ei hun, iddo ef a'r bobl sy'n ei gynghori gael doethineb nas gwelwyd ynddynt hyd yma. Gweddïwn am ras a doethineb i'r bobl sy'n ei wrthwynebu. Gweddïwn y daw sefydlogrwydd a chyfiawnder, ynghyd â heddwch a chymod, i'r wlad. Gweddïwn dros ei thrigolion tlawd a dirmygedig, yn arbennig y bobl sy'n cael eu sathru a'u herlid dan law galed yr Arlywydd. A gweddïwn dros holl gysylltiadau'r Unol Daleithiau a gweddill y byd, yn arbennig ei hymwneud presennol â gwledydd fel Gogledd Corea.

Sesiynau Chwarae Groundwork Gogledd Cymru

Trefnodd grŵp Groundwork Gogledd Cymru ddau sesiwn chwarae awyr agored i blant yn ddi-dâl yng Nghiltrefnus, Gerlan, dros wyliau'r ysgol ym mis Gorffennaf a mis Awst. Meddai Paul Rowlinson: "Roedd yn braf iawn gweld dros 40 o blant wedi cael prynhawn o hwyl yn chwarae pob math o gemau yn Gerlan a dwi'n ddiolchgar iawn i Groundwork Gogledd Cymru am drefnu'r sesiwn hwn, mewn cysylltiad â chynllun Dechrau'n Deg Cyngor Gwynedd."



Dana Batts a Megan Taylor-Rose, Groundwork Gogledd Cymru, gyda'r Cynghorydd Paul Rowlinson.

Cylch Meithrin Cefnfaes yn denu sêr y byd cerdd

Fe godwyd dros £600 i Gylch Meithrin Cefnfaes ar nos Wener, 25ain o Awst mewn gig yn Neuadd Ogwen gyda Meic Stevens, Tegid Rhys a'r DJ Ben Soundhog. Mae gan Meic Stevens gysylltiad teuluol gyda'r Cylch - ddwywaith drosodd, achos bu ei fab Erwan yno yn hogyn bach a rŵan mae ei wŷr bach, Erwan, wedi bod yn mynychu'r cylch yn

ddiwedd ar hefyd. Hoffai Pwyllgor Cylch Meithrin Cefnfaes ddiolch i Meic a'r teulu am ein helpu ni i drefnu'r gig - a diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r noson - roedd hi'n noson hyfryd dros ben a Meic yn wych fel arfer. Diolch hefyd i Dilwyn Llwyd a pwyllgor Neuadd Ogwen ac i Alex Morrison am helpu gyda'r sain ar y noson.



Meic Stevens, Gwyn Maffia, Mari Emlyn Wyn - (Cadeirydd Cylch Meithrin Cefnfaes), Mary Eds (Person Cofrestredig Cylch Meithrin Cefnfaes).

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS


- 1 Cydymaith halltwr Môn efallai (5)
- 4 Nid yn natur y diogyn sy'n ei wely (4)
- 7 Ehediad ar yr awel (4)
- 8 Heb fod yn unionsyth, swnio fel mynd o un anghyfiawnder i'r llall (4-4)
- 9 Cynnal tôn wna'r llais yma yn y côr (4)
- 10 Aw! I be ydach chi'n rhoi gwaedd wedi brifo (7)
- 12 Llinell tymheredd (7)
- 16 'Mochal' ar lafar, rhag gwlychu efallai (7)
- 18 Gair cyntaf y weddi ymadawol (4)
- 20 Osgoi llawer o'r rhain wnewch yn 16 Ar Draws (8)
- 21 Ysfa (4)
- 22 Coginio wŷ yn yr Eil-O-Man! (4)
- 23 "Nid ysgol heb y ----", meddai'r cynganeddwr sydd am addysg (5)

I LAWR

- 1 Rhif sy'n ein hatgoffa am yr efengylau, tymhorau a'r Mabinogi (6)
- 2 Gwneud yn barod (7)
- 3 Prif gynhafiaeth canran uchaf o bobl y byd (4)
- 4 Gwres sy'n crimpio (8)
- 5 Dod a chlod i werthfawrogi yn gywir (5)
- 6 Mae un i'r llawr, i'r llestri a'r gwddw, ac un gwlanen (5)
- 11 Fforesta (8)
- 13 Math o fenthyciad tymor hir (7)
- 14 Fel rhoi adeg ac amser i bryd mae'n gwawrio (5)
- 15 Defnyddio cetyn (6)
- 17 Profiad sy'n rhoi ias a chyffro (5)
- 19 Cynnyrch cae haidd neu wenith (4)

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/ AWST 2017

- AR DRAWS** 1 Pawb, 5 Pwyll, 7 Anwadal, 8 Llawfeddyg, 10 Stâr, 12 Plwc, 14 Diderfyn, 16 Gostegodd, 17 Unig, 18 Rhifo, 19 Crafnant, 22 Y Meurn, 23 Glyn, 24 Engyl



I LAWR 1 Pail, 2 Barf, 3 Chwyddedig, 4 Adeg, 5 Pleserau, 6 Llawr, 9 Adleoli, 11 Angylion, 13 Cwt Mochyn, 15 Dydd Mawrth, 18 Rhwyg, 19 Creu, 20 Nene, 21 Templ

Croeso nôl wedi gwyliau'r haf, a diolch i'r 26 ohonoch a anfonodd atebion i'r croesair, ond yn anffodus y mae un ateb wedi baglu nifer fawr ohonoch, sef 9 i Lawr. 'Adleoli' oedd yr ateb cywir, ond gwaetha'r modd cafwyd wyth 'Ailddodi', chwech 'Ailgodi', pedwar 'Aileoli' ac un 'Aildodi'. Hefyd cafwyd 'Gwyn' yn lle

'Glyn', 'Angel' yn lle 'Engyl', 'Clec' yn lle 'Plwc' a 'Nena' yn hytrach na 'Nene'. Derbyniwyd un ymgais heb nag enw na chyfeiriad iddo. Llongyfarchiadau mawr i'r ychydig a lwyddodd i gwblhau'r croesair yn hollol gywir, sef Barbara Jones, Talybont; Gwen Evans, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Gareth William Jones, Bow Street; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilwyn a Lynda Pritchard, Rachub.

Ond y mae'r wobwr a'r ganmoliaeth y tro hwn yn mynd i Angharad Watkins a Huw Pritchard, 23 The Granary, Magretian Place, Caerdydd CF10 4BR. Da iawn chi. Atebion erbyn 6 Hydref, 2017 i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 6 Hydref, 2017 i 'Croesair Medi'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Arweinydd Corau Ifanc yn profi llwyddiant

Yn ystod Awst, cafodd Owain Morgan, Park Villa, Lôn Newydd y pleser o fynychu Ysgol Haf yr elusen Sing for Pleasure ym Mhrifysgol Keele er mwyn dysgu bod yn arweinydd côr. Mae Owain newydd gychwyn ar Flwyddyn 13 yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac ar hyn o bryd ef yw cyfeilydd ac arweinydd cynorthwyol Canu Conwy, côr gweithle Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Elusen genedlaethol yw Sing for Pleasure sydd yn anelu i annog gwell canu i oedolion a phlant trwy gyrsiau hyfforddi, digwyddiadau a chyhoeddiadau.

Cydnabuwyd llwyddiant Owain drwy iddo ennill y prif wobwr o glod am waith rhagorol yn y categori Sylfaen gan Ula Weber, Cyfarwyddwr y cwrs.

Owain gyda'i dystysgrif

Dywedodd Owain, "Yn bennaf oll, yn yr ysgol haf datblygais fy ngallu arwain a dyfodd yn aruthrol yn ystod yr wythnos. Ar ddiwedd yr wythnos bûm yn arwain 'Ar Hyd y Nos' a ganwyd gan ensemble o gantorion mewn cyngerdd cyhoeddus yng Nghapel y Brifysgol. Roeddwn yn teimlo balchder yn ogystal â theimlo rhyddhad gan wybod fy mod wedi arwain fy narn cyntaf yn gyhoeddus heb unrhyw gamgymeriadau mawr!"

"Un o nodweddion gorau'r Ysgol Haf oedd yr awyrgylch gadarnhaol, gefnogol a grëwyd yno. Dechreuodd bob dydd gyda cynhesu lleisiol cyn awr o ganu corawl y bu holl aelodau yr ysgol haf yn cymryd rhan ynddo. Rhoddodd hyn gyfle i mi weld sut roedd y tiwtoriaid a arweinwyd datblygedig yn arwain ymarfer fel y gallwn ddysgu oddi wrthynt. Yn yr ymarferion hyn roeddem yn paratoi ar gyfer dau o'n cyngherddau a deuthum ar draws amrywiaeth o ddarnau gan rhai cyfansoddwyr adnabyddus megis Vivaldi a rhai llai adnabyddus fel Ariel Ramirez ac Emanuele d'Astorga. Profiad buddiol arall yn yr Ysgol Haf oedd y cyngerdd anffurfiol pan gawsom i gyd y cyfle i gefnogi a bod yn gefnogol mewn awyrgylch hamddenol a hwyliog. Cenais gyda'r Criw Cymraeg yn y cyngerdd Dydd Gwener a mwynheais yn llwyr bod o flaen torf yn ogystal â chlywed pobl eraill yn mynegi eu gallu yn y celfyddydau a gobeithiaf ddod â'r mwynhad yma o'r celfyddydau yn ôl i Gonwy gyda mi."

"Yn olaf, rwyf yn gobeithio y bydd y rhwydwaith o bobl a gwrddais yn yr ysgol haf yn aros gyda mi am amser hir iawn. Doeddwn i ddim yn cyfarfod pobl o'r un oed â mi yn unig, ond hefyd pobl hŷn sydd â gwybodaeth ehangach o lawer na mi am



gerddoriaeth ac arwain ac roedd hon yn nodwedd wirioneddol fanteisiol o'r Ysgol Haf. Tystiolaeth o hyn oedd na fu i mi unwaith basio rhywun ar y llwybr neu mewn coridor heb cael fy nghyfarch, awyrgylch wirioneddol arbennig."

Mae Owain yn ddiolchgar i Sing for Pleasure ac Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy am y gefnogaeth a roddwyd iddo i fynd i'r Ysgol Haf, ac mae'n edrych ymlaen at ddychwelyd i Gonwy i roi ei sgiliau newydd ar waith o flaen y côr.

L. Sturrs a'i feibion sefydlwyd yn 1965 ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i'r mis diwethaf
ER COF

Am
J. T. JONES
39685

A fu farw 1 - 8 - 1917
Yn 37 ml. oed

JOSEPH OWEN MORGAN
60697

A fu farw 2 - 8 - 1917
Yn 23 ml. oed

J. WILLIAMS
40637

A fu farw
6 - 8 - 1917
Yn 23 ml. oed

MOSES LLEWELYN JONES
39686

A fu farw 27 - 8 - 1917
Yn 32 ml. oed

Ganrif i'r mis hwn
H. PARRY
S4/037379

A fu farw 3 - 9 - 1917
Yn 23 ml. oed

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Lyndsey Naylor a'r plant yn eu profedigaeth o golli Peter Naylor. Gŵr, tad a thaid annwyl, oedd bob amser yn barod ei gymwynas. Bydd colled fawr ar ei ôl. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu.

Geni

Llongyfarchiadau i Iola Wyn a Raymond ar enedigaeth mab bach - Liam Wyn. Llongyfarchiadau hefyd i Lynda ar ddod yn nain, ac i Lynne ar ddod yn nain eto. Anfonwn ein dymuniadau gorau atoch.

Diolch

Dymuna Iola a Raymond ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Liam Wyn. Diolch yn fawr iawn.

Ysbyty

Mae Ceinion Williams yn yr ysbyty, ac anfonwn ein cofion ato. Rydym yn meddwl amdanoch Ceinion gan fawr obeithio eich bod yn teimlo'n well.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Medi 17: Boreol Weddi
Medi 24: Gwasanaeth
Diolchgarwch -
Cymun Bendigaidd
Hydref 1: Gwasanaeth Teuluol
Hydref 8: Cymun Bendigaidd
Hydref 15: Boreol Weddi.

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y.b.

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn y Gwasanaeth Diolchgarwch. Derbynnir rhoddion o fwydydd sych, tuniau a.y.y.b. tuag at Fanc Bwyd Cadeirlan Bangor.

Cynhelir y "Ffair Nadolig" eleni ar brynhawn Sadwrn, 18fed Tachwedd. Bydd mwy o fanylion ar gael y mis nesaf. Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Ysgol Pen-y-bryn

I'r Gâd

"Gwisg genhinen yn dy gap a gwisg hi yn dy galon."

Llongyfarchiadau enfawr i holl blant yr ysgol am lwyddo i gael y wobr aur am y drydedd flwyddyn yn olynol! Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am eu cyflwyniad graenus i'r Llywodraethwyr ar ddiwedd y flwyddyn, a oedd yn esbonio'r holl waith caled a ddigwyddodd. Wrth gwrs, ni allwn orffwyso ar ein rhwyfau; bydd y gwaith yn parhau ym mis Medi!

Llwyddiant

Llongyfarchiadau gwresog i Dylan Hughes am ddod yn gyntaf drwy Ogledd Cymru yn y ras 100m yng nghystadleuaeth yr Urdd.

Rydym yn ofnadwy o falch ohonot. Da iawn hefyd i Rhiannon a lwyddodd i fynd drwodd i rownd derfynol y gogledd gyda thaflu gwaywffon. Da iawn ti, Rhiannon.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd

Ar Orffennaf 18fed, bu holl blant blwyddyn 5 yr ysgol i Ysgol Dyffryn Ogwen am y diwrnod. Cawsant ddiwrnod wrth eu boddau wrth iddynt gael gwers goginio, gwers Gymraeg a gwers wyddoniaeth. Roedd hefyd yn gyfle gwych i'r plant gyfarfod plant eraill y dyffryn sydd yr un oed â hwy. Roeddynt oll wedi mwynhau'n arw! Diolch o galon i staff Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu diwrnod mor arbennig.

Ffarwelio

Cawsom wasanaeth arbennig iawn ar ddiwrnod olaf y flwyddyn er mwyn ffarwelio gyda phlant blwyddyn 6. Roedd y cyflwyniad yn wych a braf oedd gweld llond neuadd yn dod i wyllo. Dymunwn yn dda iawn i bob un ohonoch; rydych wedi gweithio'n galed ac rydym yn hynod falch ohonoch. Diolch i Mrs Morgan-Jones am ei gwaith caled yn eu haddysgu a diolch i chi rieni am eich cefnogaeth. Cofiwch blant ddod yn ôl i'n gweld yn fuan!

Achos da


Da iawn Grace a Neve am gasglu arian at elusen sy'n helpu plant gyda chanser. Torrodd y ddwy eu gwalltiau er mwyn casglu'r arian - gwych, genod!

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Ymdeoliad Trysorydd

Mae Neville Hughes wedi ymddeol o fod yn drysorydd i Blaid Cymru Etholaeth Arfon ar ôl gwasanaethu'r Blaid yn y swydd honno am 11 mlynedd a mwy. Ei olynnydd fydd Eurig Druce.

Yn hollol annisgwyl, mewn cyfarfod blynyddol yn Galeri, Caernarfon, wrth i Neville adael y swydd, cyflwynwyd darlun hardd o Eryri iddo gan Siân Gwenllïan, AC, a Hywel Williams, AS, gan ddiolch iddo am ei holl waith dros y Blaid.



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Cydymdeimlo

Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at Wendy a Dave Smith a'r meibion, Matthew a Cai, 47 Bro Emrys. Bu farw William Hughes, tad Wendy, yn Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf 31ain. Dyn clên iawn oedd Wil, a gedy fwllch mawr ar ei ôl ymysg ei deulu, ei ffrindiau, a'i gymdogion ym Mhenrhosgarnedd.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Margaret a Neville Fearnley, Helyg, 2. Tyddyn Cottages. Bu farw brawd- yng- nghyfraith Margaret, yn Sussex, yn dilyn rhai misoedd o waeledd.

Babi Newydd

Ar y 6ed o Orffennaf, ganwyd mab bach i Heather a Martin, 25 Bro Emrys. Mae Freya, ei chwaer fawr, wedi gwirioni efo Joel Terence, ac wrth ei bodd yn edrych ar ei ôl.

Gwellhad Buan

Cafodd Mrs Beryl Ishmael, 5. Bro Emrys, godwm cas ym Mangor a thorri ei braich mewn dau le. Brysiwch wella, Beryl!

Deallwn i'w gŵr ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Anfonwn gofion cynnes ato. Nid yw John yn dda ei iechyd er stalwm iawn.

Penblwyddi Arbennig

Yr oedd lle prysur iawn yn 12 Cae Gwigin ar ddydd Mercher, Awst 23ain, wrth i un o drigolion hynaf Talybont ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau, Mrs Hewitt!

Yn yr un modd dymunwn yn dda i Mrs. Enid Davies a ddathlodd benblwydd arbennig ar 16 Awst.

Diolch

Mae Enid Davies, Bryn Derwas, yn dymuno diolch i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl anrhegion a chyfarfodion a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig ym mis Awst.

Trigolion Newydd

Croeso i Josh a Harriet i 5, Dolhelyg (tŷ Anti Kit, i'r sawl a fagwyd yn Nhalybont). Mae hi'n braf gweld pâr ifanc yn gweithio'n galed ar dŷ sy'n sefyll yn wag ers misoedd lawer.

Addysg

Llongyfarchiadau mawr i bobl ifainc y pentref ar eu llwyddiant yn yr amrywiol arholiadau, a dymuniadau gorau wrth iddynt fwrw ymlaen i'r cam nesaf, lle bynnag y bo; a hwy! i'r plant i gyd ar ddechrau'r tymor newydd yn yr ysgol.

Eglwys St. Cross

Cynhaliwyd Gwasanaeth Pererindod, yn cynnwys Cymun Bendigaid, yn yr eglwys ar y 21ain o Awst. Yr oedd y cerddwyr o blwyfi Arundel a Brighton.

Yn dilyn y gwasanaeth, yr oedd paned a lluniaeth wedi'i drefnu yn yr Ysgoldy, a phawb yn cael cyfle i sgwrsio. Cafwyd bore difyr iawn, a diolch i bawb am eu cymorth.

Diolch i aelodau eglwys S. Mair, Tregarth am y croeso a gawsom i'r Te Bach yn y Gelli ar ddydd Llun olaf y mis. Yr oedd pawb yn mwynhau'r cacennau blasus wedi'u coginio gan Rosemary, y Warden.

Treuliodd Graham a Lynne Davies ychydig o ddyddiau yn yr ardal yn ddiweddar. Braf oedd eu gweld yn cydaddoli efo ni ar y bore Sul.

Parhau mae'r boreau coffi yn yr Ysgoldy ar fore Mawrth cyntaf o'r mis, am 10 o'r gloch tan ddeuddeg. Croeso cynnes i bawb!

Capel Bethlehem

Oedfaon

Mae'r oedfaon wedi ail gychwyn yn dilyn gwyliau mis Awst. Ar 3 Medi croesawyd y Parchedig Euros Wyn Jones, Llangefni, i bulpud Bethlehem, ac ar 10 Medi gweinyddwyd y Cymun gan ein Gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Dyma restr yr oedfaon am y Suliau nesaf:

Medi 17: Parchg. Geraint Roberts, Porthaethwy; **Medi 24:** Gweinidog;

Hydref 1: Parchg. Trefor Lewis;

Hydref 8: Gweinidog; **Hydref 15:** Parchg. Huw John Hughes, Porthaethwy.

Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar 10 Medi, gan fawr obeithio y byddwn wedi cael ymateb ffafriol i'n gwahoddiad am ddisgyblion i ddod atom.

Bwrlwm Bethlehem

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrlwm ar ddydd Iau, 7 Medi. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau, 21 Medi, ac yna bob bythefnos o 2.15 tan 3.45. Mae croeso i unrhyw un alw i mewn am baned a sgwrs.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Rose Thomas, 16, Dolhelyg, sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd, ac hefyd i'w gŵr, Idris, sydd wedi cael helynt efo'i droed.

Glanhau

Diolch i'r criw hapus a bywiog a fu'n glanhau'r capel a'r festri ar gyfer ail gychwyn oedfaon a gweithgareddau tymor yr Hydref.

Nyth Y Gân

Hedd Wyn yn claddu cerddi anorffen yn y wal

Corwedd mewn clawdd bu'r geiriau, yn aros
Am hir i'w feddyliau
Ollwng egin llinellau
Yn eu twf o'u hyfryd hau.

Trysorau Cefn Gwlad

O gerrig cyfagos y codwyd y tŷ,
Ar lechwedd y mynydd eu dewis o'r llu;
A chadarn edrychai y gwaith dan law dyn
Fu'n creu aelwyd ddiddos â'i forthwyl a'i gŷn.

Roedd harddwch naturiol i gerrig fel 'rhain
Fel blodau a ffrwythau a dyf ar y drain
Yn tynnu ein llygaid a hynny bob tro
Gan wneud i ni feddwl am grefftwyr ein bro.

Rhai meini mawr trymion oedd frwnt, a rhai llyfn,
Yn edrych fel pe baent yn codi o'r dyfn,
A'u golchi a gawsant gan wynt a chan law
A'r cen sydd yn tyfu lle unwaith bu baw.

I lawer dieithryn ond mur oedd o'u blaen
A dim sôn am ymdrech o'r llafur na'r straen;
Ni welent 'run pryfyn na 'deryn ychwaith
A drigai'n y mur cyn mynd ar eu taith.

Trysorau arbennig a geir yng nghefn gwlad
Ar fferm ac ar dyddyn i blentyn gan dad,
Ond yn yr oes fodern prinhaus wnaeth sawl un
A gorwedd yn dawel a wnânt hwy mewn llun.

Y Droell Nyddu

Hen addurn yw hi heddiw, yn edrych
Mewn oedran ac unlliw,
A bu i'r droell, fu'n bur driw,
A dael y crefftwaiw clodwiw.

Paentiad o'r Hen Gartref

Gweld tŷ yw golud hanes, yn y paent
Teimlad pur a chynnes;
Ei hen oes a ddaw yn nes
Yn fwyn o fewn y fynwes.
Dafydd Morris

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Teulu Aralia

Pob dymuniad da i Rhys Owen ar ei ymddeoliad o'i waith fel darlithydd yng Ngholeg Menai. Mae anogaeth yn y blynyddoedd diwethaf i'r rhai ifanc i ddilyn cwrs prentisiaeth a dyna yn union a wnaeth Martha, mae'n gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol ym Mhentir ac yn gwneud yn dda yno. Y mae Mali wedi derbyn gradd Meistr mewn economeg ym Mhrifysgol Glasgow ac ar y funud y mae hi a'i chymar yn Awstralia, efallai am ddwy flynedd. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch. Mae Angharad yn parhau i fwynhau ei hymddeoliad a chyda Rhys adref 'rwan dwi'n siwr y bydd dipyn o grwydro yn y "campy fan!"

Teulu Erw Wen Llongyfarchiadau i Catrin, Caerdydd nawr, ar ei phenodiad yn Ddirpwy Bennaeth yn Ysgol Plas Mawr ac anfonwn ein dymuniadau gorau i ti yn dy swydd newydd. Mae Gwyn, ei brawd, yn byw yn Vancouver ers tro bellach ac yno y priododd â Bronwyn yn ddiweddar, pob dymuniad da i chi eich dau. Bu ei rieni, Linda a Melfyn yno i'r briodas a chael gwyliau da yno hefyd. Mae wedi bod yn haf prysur iddynt.

Dwy chwaer

Mae'n braf clywed am lwyddiant pobl ifanc yr ardal. Derbyniodd Sioned Jones, Carfan, radd Meistr mewn Criminoleg ym Mhrifysgol, Bangor ac mae wedi cael swydd gyda Cais yn Sir Fôn. Llwyddodd ei chwaer Manon ei phrawf gyrru ar y cynnig cyntaf, fydd dim dal arni rwan. Y mae'n dilyn cwrs Gofal Plant yng Ngholeg Menai ar y funud. **Diolch:** Dymuna Mrs Annie Williams, Groeslon a Fodol gynt a mam Brenda, 19 Bro Rhiwen, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniodd hi a'r genod yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl. Roedd yn adnabyddus yn yr ardal fel Moi Fodol ac mae'r teulu'n ddiolchgar am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ymchwil Cancr.

Llwyddiant

Y mae Yvonne Halstead, 19, Bron y Waun wedi cyflawni cwrs statws Cymhorthydd Addysgu lefel uwch, CALU, yn ystod y flwyddyn addysgol ddiwethaf. Mae'r

seremoni wobrwyo ym Mis Hydref ar safle Prifysgol Glyndŵr yn Llanelwy. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei llwyddiant.

Sêl Penbwrdd a Bingo

Yn ystod Mis Gorffennaf cawsom noson hwyliog a phrysur yn y Neuadd, roedd criw uSweat wedi trefnu y Sêl Penbwrdd ac roedd amrywiaeth o stondinau yno, rhywbeth i apelio at bawb. Codwyd £372 a'r arian yn mynd at y Neuadd, diolch yn fawr i Ffion a'r criw am drefnu'r noson. Wedyn cawsom y Bingo gyda Dafydd Evans o Ddeiniolen yn galw, braf iawn oedd oedd gweld y plant yn cael cymaint o hwyl, ac fe wnaethpwyd £93. Diolch i bawb a gyfrannodd at y noson ac am eich presenoldeb yn y gweithgareddau.

Eisteddfod Genedlaethol 2017

A oes heddwch? Cafodd y cynhyrchiad yma lawer o sylw gan y cyfryngau a hynny yn haeddiannol hefyd. Roedd wedi gosod y safon ar y noson gyntaf a braf iawn oedd gweld Lleuwen Steffan yn rhan o'r cast, ac mae hithau wedi cael haf prysur.

Hefyd cafodd Einir Wyn Williams ei dewis i feirniadu yn yr adran canu gwerin. Yn y gorffennol bu'n llwyddiannus yn y Genedlaethol, yn cystadlu ar yr alaw werin, unawd soprano a Cherdd Dant.

Cafodd Annes Glynn y wobwr gyntaf am englyn unodl union, 'Mam' oedd teitl y dasg ac eglurodd y beirniad, Y Prifardd John Gwilym Jones, fod yr englyn gan Annes yn un hollol annisgwyl gan y sonnir am ferch fach yn arddangos doniau mamol er mai tair oed ydyw. Bu Annes hefyd yn brysur iawn yn y Babell Lân.

Dymuno'n dda

Bu Mr Bob Jones, Rhos Penrhyn yn yr ysbyty yn ddiweddar ac y mae Mr John Huw Evans hefyd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm a Heulwen ei wraig, bellach yng Ngherrig yr Afon. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atoch ac at eraill sy heb fod yn teimlo'n dda.

Cydymdeimlo

Yn sydyn ond yn dawel yn ei chartref, Hamdden, Glanrhyd, Pentir, bu farw Mrs Dilys Owen, priod Ieuan a mam a mam yng nghyfraith Eirug a Diane a Bethan ac Eifion. Roedd hefyd yn nain i Dylan, Danny, Sioned, Emma a Manon. Roedd yn wreiddiol o Lanrug ond wedi treulio amser helaeth yng Nglanrhyd. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Sant Cedol, Pentir ac fe dderbynwyd rhoddion

tuag at Diabetes UK a meddygfa Felinheli. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu yn eich profedigaeth drist.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Ann Marie, Caeau Gleision a hithau ond yn 32 mlwydd oed. Roedd yn briod ag Eurfron ac yn fam i Sioned a Katie, a merch yng nghyfraith i Dafydd a Carol Davies. Roedd yn nyrs wrth ei galwedigaeth ac yn ystod ei salwch llwyddodd i gwblhau gradd Meistr, fe fu'n ddewr drwy gydol yr amser. Tra yn Ward Alaw trefnwyd ei bod yn cael seremoni graddio yno ac roedd y teulu yn ddiolchgar am hyn ac yn sicr fe fydd yn atgof am byth i'r genod. Bu'r angladd yn Eglwys Llandegai ac yn dilyn yn yr Amlogfa. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd fel teulu yn eich colled drist.

Bu farw Tom Gwyn Jones, Creigle wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, priod Carol, tad Caren a thad yng nghyfraith Dyfed a thaid Osian. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwaer Heulwen a'i gŵr, John Huw a'i nai Rhys a'i nith Rhian, Jim, Heledd a Morgan. Bu'r angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth a chynulleidfa gref yn bresennol. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parch Gwynfor Williams, gyda Mr D Wynn Williams wrth yr organ. Rydym oll yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich colled. **(Gwelir y deyrnged lawn i Tom Gwyn ar dudalen 16.)**

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Hefin ac Einir Williams, Ffioleu'r Grug, bu farw mam Hefin, Mrs Eirlys Williams yn 97 mlwydd oed. Yn wreiddiol o Ddeiniolen ond yn y blynyddoedd diwethaf bu yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Cyn ei salwch roedd yn gefnogol i nifer o weithgareddau yn y pentref. Bu'r gwasanaeth yng nghapel Ebeneser, Deiniolen. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Bedyddio

Ar y 6ed o Awst yng Nghapel Shiloh bedyddiwyd Alaw Modlen, merch 6 mis oed Bleddyn ac Angharad, Cilfodan, gan y Parch. Philip Barnett. Mae Alaw yn wyres i Gerallt ac Angharad, Ffordd Tanrhiw.

Ar 30 Gorffennaf yn yr un capel, bedydiwyd Elenid a Deio Bracegirdle gan Mr Barnett. Mae Elenid a Deio yn blant i Llinos ac Owen Bracegirdle o Lanrug ac mae Llinos yn ferch i Arwel a meinir, Tir Tegla, Tregarth.

Cydymdeimlo

Ym Mis Mehefin collodd Gwen Owen, 25 Ffordd Tanrhiw ei mam oedd yn byw yn Llanbedrgoch, Ynys Môn. Roedd hi hefyd yn nain i Delyth a Siôn Penri ac yn hen nain. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

17 Medi: Dim gwasanaeth - ymuno â'r gwasanaeth diolchgarwch yn Sant Cross. 10.30 y bore.

24 Medi: Diolchgarwch - Cymun am 10.30 y bore a Hwylol Weddi am 5 y p'nawn.

1 Hydref: Dim gwasanaeth - ymuno â Gwasanaeth Diolchgarwch Sant Tegai 10.30 y bore.

8 Hydref: Cymun Bendigaid - 9.30 y bore.

15 Hydref: Boreol Weddi - 9.30 y bore.

Te bach

Cynhelir te bach ar Ddydd Mawrth 19 Medi am 2 o'r gloch y prynhawn.

Symud

Dymunwn bob hapusrwydd i Linda Irons sydd wedi symud i Carlisle er mwyn bod yn nes at ei theulu.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Eimir ac Elfed Williams, Tal y Cae, Tregarth, am ddod yn Nain a Taid am y tro cyntaf. Ganed Nansi Griff yng Nghaerdydd i Llinos ac Arwel Evans. Cofion atoch deulu bach oddi wrth pawb yn Nyffryn Ogwen.

Ganed merch fach i Iona a Guto Williams, Tal y Cae. Pob dymuniad da i chithau. Dwi'n siwr fod Nain a Taid Bangor, sef Nesta a Iolo Williams, Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, wrth eu bodd hefo'r newyddion hapus.

Llwyddiant academaidd

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a lwyddodd yn eu arholiadau ddiweddedd tymor unai mewn Ysgol neu Goleg. Pob llwyddiant yn eich gyrfa am y blynyddoedd nesa.

Wynn ac Eirwen Williams, (Tyddyn Dicwm, Tregarth)

Llongyfarchiadau iddynt ar gyrraedd penblwydd Priodas Diemwnt ar 20fed o Orffennaf 2017. Cyfarchion gan y teulu i gyd.



Wynn ac Eirwen Williams ar ddydd eu priodas.

Profedigaeth

Daeth y newyddion trist am farwolaeth William Parry Williams, Yr Encil, 20 Tal y Cae, Tregarth yn Ysbyty Gwynedd at Awst 25 ac yntau'n 85 mlwydd oed. Bu Wil yn Brifathro ar Ysgol Treborth am flynyddoedd ac roedd yn gymeriad adnabyddus iawn yn yr ardal a thu hwnt. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod Dilys, ei blant Rhian Mair a Trystan, ei ferch yng nghyfraith Rhian Non, a'i wyrion Morgan Huw a Henri Ifan. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor at Fedi 4.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Cofiwch am gyfarfod Mis Hydref o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr yn Festri Capel Shiloh am 7.30 pan ddaw'r artist Luned Rhys Parry, Y Groeslon, i sôn am ei gwaith. Noson i edych ymlaen yn fawr ati. Dewch i gefnogi!

Capel Shiloh Tregarth

Gwasanaeth am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Medi 17 Glyn Owen, Llanwnda

Medi 24 Gwynfor Williams, Caernarfon

Hydref 1 Philip Barnett

Hydref 8 Geraint Roberts, Llandegfan

Hydref 15 Oedfa Deulu y Diolchgarwch

Hydref 22 Gwyndaf Jones, Bangor

Cofiwch bawb fod y Capel ar agor, sef Drws Agored, yn Shiloh, bob bore Gwener at gyfer unrhyw un a hoffai gwmni, paned a sgwrs, o 10 o'r gloch hyd 12 o'r gloch.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i rai o gyn aelodau'r Ysgol

Sul a lwyddodd yn eu arholiadau. Yn eu mysq mae Luke ac Esme Crowe, Sling; Sion Jones, Henli; Huw Morris Jones, Tal y Cae. Pob dymuniad da i bob un ohonoch.

Profedigaeth

Daeth profedigaeth i ran Valerie a David Ellis Jones, Glan Gors, pan fu farw ewythr i Val yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda. Ein cydymdeimlad llwyrfa.

Gwella

Mae'n dda cael croesawu ein Trysorydd, sef Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, yn ôl i'w sedd wedi wythnosau yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri wedi'r ddamwain ddaeth i'w rhan yn ei chartref yn Nhyddyn Dicwm. Anfonwn ein cofion at Edith Hughes, Erw Faen, sydd wedi methu dod i'r capel ers tro bellach. Ein cofion atoch Edith.

Colli Cyfaill Cywir

Daeth y newyddion hynod o drist am farwolaeth Tom Gwyn Jones, Rhiwlas. Gwyn oedd Goruchwiliwr Ardal Mon ac Arfon o'r Eglwys Fethodistaidd a bu ei gefnogaeth, ei gymorth a'i arweiniad i ni yn Shiloh yn ddibendraw. Cofion at Carol, Caren a'r holl deulu yn eu tristwch o golli Gwyn.

Croesawu Gweinidog newydd

Nos Wener, Medi 1, bu cyfarfod arbennig yn Shiloh i groesawu Gweinidog newydd i Gylchdaith Mon ac Arfon, sef Y Parchedig Richard Gillion sydd wedi symud o fod yn Weinidog o Gasnewydd. Edrychwn ymlaen i'w groesawu ac i'n harwain yn y gwasanaethau a gobeithiwn yn fawr y bydd ef a'i briod Lesley yn setlo yn dda yn eu cartref newydd ym Mangor.

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Rhyfel Byd Cyntaf

gan Andre Lomozik



Dyma fwy o luniau bechgyn o ardal Bethesda a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe'u derbynias gan Gwilym Evans, o'r Amwythig, - allwch chwi eu henwi?

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Trefnydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth, BANGOR, Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798
E-bost = dafydd@caerwern.cymru

RHAGLEN 2017/2018

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch** AG EITHRIO cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch**.

Lleoliad y cyfarfodydd: **Festri Capel Jerusalem, Bethesda**

2017

Nos Lun 9 Hydref 7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**
7.30 **Elen Wyn Keen** - *J. Lloyd Williams ac Aelwyd Angharad*
Nos Lun 13 Tachwedd 7.00 **Ann Parry Owen** - *Guto'r Glyn a Chochwillan*
Nos Lun 11 Rhagfyr 7.00 **Gwen Gruffudd** - *"Evan Parry, y llyfryddwr gwych o Fethesda"*

2018

Nos Lun 8 Ionawr 7.00 **Nerys Mari Jones** - *Prosiect Penrhyn*
Nos Lun 12 Chwefror 7.00 **Cynrig Hughes** - *Hanes Sgwâr Pentir, a Rhyd-y-Groes*
Nos Lun 12 Mawrth 7.00 **John Ll Williams** - *"Ai Y Star ddylai'r enw fod?" - hanes datblygiad Bethesda [Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]*

FFI AM Y CWRS

Y ffoedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn noson gyntaf y tymor, os gwelwch yn dda. Sicciau yn daladwy i: Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. £6.00 i rai mewn gwaith; £3.00 i bensynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £1.50

SWYDDOGION Y GYMDEITHAS YN YSTOD 2017/18:

Cadeirydd: Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth (01248) 602021

Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth. (01248) 600798

Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE

eost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysio Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY





Anelu / Aim Higher mewn partneriaeth gyda Crib Goch a Neuadd Ogwen yn cyflwyno Gŵyl Mynydda Ogwen 2017.

Neuadd Ogwen, Bethesda, LL57 3AN

Gwener 15 Medi a Sadwrn 16 Medi 2017

www.ogwenmountaineeringfestival.co.uk

Twitter - @GŵylOgwen
Facebook - GŵylOgwen
Instagram - GŵylOgwen

Mae'r ŵyl boblogaidd hon yn ymestyn i ddau ddiwrnod ar gyfer 2017. Yng nghesail y Carneddau mae'r lleoliad yn un perffaith ac yn cyd fynd â themâu'r Ŵyl.

Stephen Jones, perchennog cwmni Anelu Aim Higher sy'n arwain yr ŵyl ac mae ei galon

yng nghanol y mynyddoedd yn union fel ei ŵyl sydd bellach yn dwyn sylw fel digwyddiad rheolaidd yn y dyddiadur mynydda yn ogystal â Gogledd Cymru.

2017:

Ar y Dydd Gwener mae tîm yr ŵyl yn ymweld â phedair Ysgol Gynradd leol gyda'r syrffiw'r Llywelyn Williams er mwyn trafod gweithgareddau awyr agored a cheisio ysbrydoli pobl ifanc i fynd allan a mwynhau beth sydd ar garreg ein drws.

Ar y nos Wener mae Alan Hinkes yn rhoi darlith yn Neuadd Ogwen. Mynyddwr o fri sydd yn adnabyddus am ddringo mynyddoedd dros 8000metr. Nid yw'n ofni dweud beth sydd ar ei feddwl, felly noson llawn hanesion cyffrous fydd hi!

Bydd Dydd Sadwrn yn cychwyn gyda gweithdai dringo am DDIM gan hyfforddwyr yr Association of Mountaineering Instructors yn Llys Dafydd gyferbyn â Neuadd Ogwen. Cyfle gwych i ddysgu mwy am ddringo, efallai datrys problem sy gennych ynglŷn â dringo neu i gael dim ond sgwrs am y lle i ddringo nesaf.

Yn Neuadd Ogwen bydd yna stondinau gan Gymdeithas Eryri,

Siop Crib Goch, Clwb Mynydda Cymru, Partneriaeth Awyr Agored, Palas Print ac eraill.

Darlithoedd yn yr Iaith Gymraeg sy gennym ar b'nawn Sadwrn yr Ŵyl gyda Ben Stammers (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru) a Lowri Morgan. Fe fydd cyfleusterau cyfieithu llawn ar gael. Bydd Ben yn sôn am ei yrfa ym myd natur gyda hanesion difyr tu hwnt a sut gallwn ni gyd weithio yn well gyda natur a bywyd gwyllt.

Lowri Morgan yw un o wynebau mwyaf enwog y byd teledu Cymraeg gan ei bod yn cyflwyno nifer o raglenni ond mae hefyd yn anturwraig heb ei ail ac yn haeddu clod am ei chyflawniadau dros y byd (yn cynnwys o dan y môr!).

Nigel Shepherd, arweinydd mynydd heb ei ail (ac aelod o'r British Mountain Guides) a hefyd un sy'n awdur nifer o lyfrau dringo technegol fydd yn cloi'r ŵyl. Mae Nigel wedi cael gyrfa ledled y byd yn sgïo, dringo a dysgu mewn pob math o awyrgylch. Mae hefyd yn ffotograffydd talentog gyda llawer o'i luniau yn cael eu defnyddio yn y wasg. Ffordd wych o ddod â gŵyl 2017 i ben.

Bydd Tîm Achub De Eryri yn chwarae rhan ganolog yn yr Ŵyl wrth iddynt egluro a dangos sut maent yn gweithio a rhoi cymorth i bobl sydd eu hangen. Maent yn ceisio codi arian tuag at hafan newydd, felly dowch lawr i'w cefnogi.

Mae'r ŵyl yn addas nid yn unig i'r rhai sydd gyda diddordeb mewn mynydda a'r awyr agored ond hefyd i'r rhai sy'n ceisio darganfod mwy am y tirwedd, y gweithgareddau a'r cymunedau sy'n rhan o Eryri.

Mae croeso cynnes i bawb yng Ngŵyl Mynydda Ogwen, felly cofiwch archebu eich tocynnau a bod yn rhan o ddiwyddiad cyffrous yn Nyffryn Ogwen. Tocynnau ar gael - www.neuaddogwen.com

Prisiau:

Tocyn penwythnos:
ALAN HINKES + LOWRI MORGAN + NIGEL SHEPHERD £30.00

Tocyn Sadwrn: LOWRI MORGAN + NIGEL SHEPHERD £20.00

Tocyn Nos Sadwrn:
NIGEL SHEPHERD £13.00

Tocyn Nos Wener:
ALAN HINKES OBE £13.00

Tocyn pnawn Sadwrn:
LOWRI MORGAN £13.00



Dyma lun criw o chwarelwyr a dynnwyd oddeutu 1950. Oes rhywun yn eu hadnabod?

CHWILAIR

HEDD WYN

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG PETH YN YMWNEUD A HEDD WYN. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn HYDREF 3. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Cefais fynd ar drip i wlad Belg ddechrau mis Awst, a bod yn bresennol yn y dathliadau i goffhau canmlwyddiant marwolaeth bardd y gadair ddu, sef Hedd Wyn, a dyma feddwl fod hwn yn destun ar gyfer y mis yma. Gobeithio eich bod wedi sobri ar ôl eich taith o amgylch tafarndai Cymru, un neu ddau wedi cael hyd i'r BWL yn y chwilair ond yn anffodus nid oeddwn wedi cynnwys enw'r dafarn enwog yma, na'r VIC chwaith. Diolch i Colin Davies, Blaenau Ffestiniog am roi cynnig ar y chwilair am y tro cyntaf, dalier ati a gwell lwc y tro yma. **Dyma atebion Gorffennaf**

:- Garddfon, (Felinheli) Cegin Fawr, (Aberdaron) Gors Bach, (Bethel) Gwesty'r Eryrod, (Llanuwchllyn) Llew Coch, (Dinas Mawddwy) Llwynceilyn, (Y Porth) Saith Seren, (Llechryd) Tafarn y Milgi, (Llanymddyfri) Tafarn y Rhos, (Rhostrehwfa) Y Bedol, (Bethel) Yr Allweddau Croes, (Betws y Coed) Y Tŷ Gwyrdd (Llantarnam).

C	A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U
E	S	N	A	V	E	Y	E	R	H	P	M	U	H	S	I	L	L	E	I
R	S	V	S	B	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X
D	V	A	D	T	A	D	N	C	E	F	N	P	I	L	K	E	M	A	Y
D	P	A	U	R	Q	L	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	R	H
I	C	U	M	A	W	N	A	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	Y	F	D
R	R	X	U	W	P	W	R	H	C	Q	H	W	E	H	O	S	S	Y	E
B	U	E	G	S	E	O	M	H	E	P	T	T	C	B	G	M	B	C	U
U	L	U	J	F	P	L	T	M	I	V	V	D	C	W	A	B	B	F	R
G	F	F	O	Y	G	J	V	I	I	R	R	X	R	I	I	M	H	T	T
A	F	O	S	N	K	O	P	W	R	C	M	N	L	K	C	B	O	R	C
I	D	X	V	Y	R	Y	H	S	T	M	R	L	E	F	Y	J	D	Z	H
L	A	B	C	D	W	O	S	C	R	A	I	I	X	N	I	L	X	J	J
M	R	B	W	D	T	E	X	M	D	W	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O
I	T	L	F	E	R	Z	Q	R	D	O	C	T	D	G	W	S	R	L	Z
E	S	B	E	A	J	K	J	L	C	L	N	L	R	V	O	W	G	J	P
W	Y	P	G	S	O	M	A	R	Y	E	V	A	N	S	R	W	J	J	Q
U	N	O	I	N	Y	R	O	M	Y	N	Y	L	L	A	L	F	S	V	T
X	E	U	G	H	E	S	L	Z	E	A	F	X	R	I	W	T	Z	H	K
V	A	G	B	G	N	K	A	D	S	I	K	Y	O	G	D	H	B	S	I

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb

cywir:- Gwilym a Barbara Owen, Rhos y Nant; Myfanwy Jones, Gaerwen; Mrs Mair Williams, Mynydd Llandegai; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Jones, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Alwyn Rowlands, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Glyn Davies, Llanfairpwll; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Llewela o'Brien,

Bangor Uchaf; Magdalen Jones, Bangor; Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Glenys Roberts, Hen Barc.

Enillydd Gorffennaf oedd:- Myfanwy Jones, Tan Rhiw, Stryd Hiracl, Gaerwen, Ynys Môn LL60 6BL.



Siân Gwennlian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

(01286) 672076

Sian.Gwennlian@cynulliad.cymru



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

williams@parliament.uk

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Ar y Bysys 4

Pwy oedd pwy ar y Moduron Porffor (1)

O gymharu â'r rhwydwaith eang oedd gan Crosville drwy Ogledd Cymru a'r tu hwnt, bach iawn, a lleol, oedd y gwasanaeth a gynigid gan y Moduron Porffor - y ddau rhwng Bethesda a Bangor, y naill ar hyd y Lôn Bost a'r llall drwy Dregarth a Glasinfryn. Rhaid peidio ag anghofio, wrth gwrs, am ochr arall y busnes, sef y gwibdeithiau mewn coaches moethus i wahanol fannau drwy wledydd Prydain. Mae'n siŵr gen i fod 'na gannoedd, onid miloedd, o bobl ag atgofion melys a diddorol iawn am y gwyliau hynny yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf.

Thomas John Roberts a sefydlodd y busnes ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cyn hynny, barbwr oedd T. J. Roberts a chanddo siop gyferbyn â lle'r arferai Banc y Nat-West fod rai blynyddoedd yn ôl. Adroddais hanes y siop honno yn Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad (Barddas, 2008) a nodi y ceid yno hefyd:

wasanaeth trwsio ymbarelau ac fe werthai anrhegion, ffyn ac offer pysgota (heb sôn am roi cyngor yn rhad ac am ddim ynglŷn â sut i bysgota yn llynnoedd ac afonydd y fro a pha blu i'w defnyddio i sicrhau llwyddiant). At hynny, roedd yn amlwg am gystadlu efo neb llai na'r enwog F. W. Woolworth a'i gadwyn o 'siopau chwech', gan i T. J. Roberts hysbysebu ei siop fel 'The Noted 6½d Bazaar' a hynny tua 1911-12.

Nid anodd dychmygu, felly, pam mai 'bysys Tomi Barbar a 'Bysys Chwech a Dima' oedd y Purple Motors ar lafar i drigolion Dyffryn Ogwen!

Mr Thomas Henry Davies, brodor o Dreffynnon, a gofiai i yn Rheolwr Cyffredinol y Cwmni. Daethai i'r ardal pan briododd Mary Elizabeth, merch Thomas John a Catherine Roberts. Roedd Tom Davies yn flaenor yng Nghapel Jerusalem, yn fonheddwr a chymwynaswr o'r iawn ryw. Cafodd Tom a Mary Davies un ferch, Heulwen, sy'n byw y dyddiau hyn yn Ystrad Dawel, Ffordd Bangor, gyda'i phriod, y fferylllydd Emyr Roberts.

Yn gyfrifol am gadw cyfrifon y Cwmni yr oedd Mr William John

Edwards, 1 Rhes Gordon, gŵr bonheddig arall, a chwaraeodd ran flaenllaw mewn sawl gweithgaredd yn yr ardal, gan gynnwys bod yn Drysorydd Capel Bethesda am flynyddoedd.

Dyddiau braf a hwyliog oedd y rheini pan oeddwn yn gweithio ar y bysys a chriw'r garej gyda'r cydweithwyr gorau y gallech chi eu cael yn unman.

Roedd Hugh Alun Jones (Maes Coetmor) yn fecanic ac yn yrrwr - ac un gofalus a phwyllog oedd o hefyd. Gwelid ef yn aml yn y pit, dan ryw fws neu'i gilydd, yn trin a thrwsio, a chanddo beiriant stêm (y steam jenny) i lanhau'r injan drwyddi draw ac o dan y bws yn gyffredinol. Dro arall, byddai wrthi'n gosod panel newydd yn lle un a dolciwyd gan un arall o'r hogia wrth deithio ar lonydd culion yr ardal, yn arbennig felly yng nghyffiniau Tregarth a Glasinfryn. Weithiau, deuai'r saer, Jack Hughes, hefyd o Faes Coetmor, i roi help llaw (er enghraifft, pan fyddai angen adnewyddu rhan o'r fframwaith dan baneli'r bws).

A dyna Gwilym Griffiths (Glanffrydlas), a fyddai'n edrych ar ôl y bysys fel pe bai ef ei hun wedi talu amdany'n nhw - yn brwsio a mopio'n drwyadl ac yn glanhau'r ffenestri i gyd nes y byddent yn sgleinio fel swllt, yn arbennig felly'r Bedford coach, yr HCC 850, yr oedd ef ei hun yn gyfrifol amdani ac yn ei defnyddio i fynd ar wibdeithau yma ac acw. Bu Gwilym farw yn ei bedwar degau cynnar, gan adael ei wraig, Einwen, a'u mab, Aled. Byddai Gwilym wedi bod uwchben ei ddigon pe bai wedi cael gweld Aled yn cymhwyso i fod yn feddyg.

Roedd Ivor (Melancthon Williams) yn debyg iawn i Gwilym, yn yrrwr pwyllog a gofalus bob amser ac yntau hefyd yn gyfrifol am Bedford arall, y JCC 850, fel un Gwilym, ac yn edrych ar ei hól gyda gofal a pharch eithriadol. Tybed a fu erioed weithwyr mor ffyddlon a chydwybodol â'r ddau hyn? Da cael dweud bod Ivor a'i briod, Betty, yn byw heddiw yn Abercaseg ac yn mwynhau cwmni a sylw eu dwy ferch (Shirley a Gillian), a'u hwyron llon.

Cawn sôn y tro nesaf am rai o yrwyr eraill y Purple Motors.

I'w barhau

Partneriaeth Ogwen

Dyma raglen o ddigwyddiadau Partneriaeth Ogwen/ Egin Ogwen dros y misoedd nesaf:

Bydd y gwaith ar y 1af o Fedi, sef prynhawn o lanhau'r afon gan gyfarfod ym Mhont Ring ynghyd â'r gweithgaredd ar y 3ydd o Fedi, sef prynhawn o dacluso a garddio yn Llys Dafydd, a phlannu yn y boc o flaen Spar wedi digwydd erbyn i'r rhifyn hwn o Lais Ogwan ymddangos.

22ain o Fedi 19:00 - Gwledd Glyndŵr - tri chwrs, sgwrs am fwyd canoloesol, ac adloniant. (mwy o wybodaeth i ddod.)

15 o Hydref 14.00- Helfa Ffwng gyda 'Yr Ardd Fadarch' - Cyfarfod yn Llys Dafydd.

5ed o Dachwedd 11.00 - Diwrnod creu sydd a phobi afalau - Llys Dafydd.

24 o Fedi am 16:00. Yn ogystal â hyn mae grwp o bobl leol yn arwain sesiwn tacluso ar y cwrt tennis ym Mharc Meurig.



Marchnad Ogwen

Stondin newydd! Mae criw Marchnad Ogwen yn falch iawn o groesawu Maggie Ogunbanwo atom. Mae hi'n arbenigo mewn creu sawsus ecsotig, speis a siytyn blasus, ac fel y buasai un o'n stondinwyr ni yn tystio wrth iddi flasau un o'r sawsus chili, mae cic go lew ynddo! Mae Maggie yn byw ym Menygroes ac yn siarad cryn dipyn o Gymraeg. Dewch i roi cynnig ar ei bwydydd - sydd gyda dylanwad Affricanaidd. Rydan ni yn ehangu ein gorwelion ym Marchnad Ogwen!

Wrth gwrs, mae bwydydd lleol yn rhan hanfodol bwysig o'r Farchnad. Caws o fferm Moelyci a Sir Fôn, llysiau o Lanllechid, cynnyrch ffrwythau o Sling, cacennau o Fraichmelyn, selsig o Gaernarfon, wyau o Sir Fôn, coffi wedi ei rostio yn ffres o Groeslon a bara o Rachub. Mae'n hyfryd gallu cefnogi pobl leol yn y Farchnad.

Yr NSPCC sy'n cynnal y Stodin Elusen ym mis Hydref. Y stodin nesaf ar gael yw mis Chwefror.

Bydd Llŷr ap Glyn yng ngofal y Stodin 'Un Tro' ac yn gwerthu pwmpenni at Noson Calan Gaeaf. Dyma stodin newydd i ni ym Marchnad Ogwen! Cafodd Llŷr ddamwain ddrwg yn ddiweddar ac rydym mor falch ei fod wedi gwella yn ddigon da i redeg y Stodin mis Hydref. Y mis nesaf sy'n rhydd yw mis Chwefror.

Wyddoch chi beth fuasai yn ein plesio ni yn fawr iawn ym Marchnad Ogwen? Gweld mwy o bobl Pesda - sydd erioed wedi bod yn y Farchnad - y taro i mewn. Mae croeso cynnes yn eich disgwyl Hydref 11eg yn Neuadd Ogwen.

Mwy o wybodaeth ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook a Twitter.

Chwaraeon

Maldi Pritch y capten llwyddiannus

Maldwyn Pritchard, Capten Tîm 'B' Bowls yr Hynafgwyr yn rhoi braslun o'r tymor hyd yma.

Mae dau dîm bowlïo henoed Bethesda yn chwarae yng Nghynghrair Hynafgwyr Gwynedd ar brynhawniau dydd Mawrth, sef tîm "A" a thîm "B", a chyda 3 gêm o'r tymor i fynd fel hyn mae hi'n sefyll.

Mae'r tîm "A" o dan eu capten, Dilwyn Owen, wedi cael tymor gweddol siomedig a maent ar hyn o bryd yn 8ed allan o 11 tîm yng Nghynghrair 1 ar ôl curo 6 o 11 gem. Fred Buckley yw'r mwyaf llwyddianus oherwydd iddo

guro 9 a cholli 7 ac mae Glyn Roberts yn agos iddo (8 - 7) ac Elfed Bullock yn drydydd (6 - 2). Hefyd mae Derek Roberts yn haeddu cael ei enwi wedi iddo fo guro 5 allan o 5 gêm.

Mae'r garfan hefyd yn cynnwys Brynmor Jones, Alun Williams, Gilbert Bowen, Wendy Thomas a Trefor Lewis.

Ar y llaw arall mae tîm "B", o dan eu capten, Maldwyn Pritchard, wedi hedfan i fyny Cynghrair 2 ar ôl curo 13 o'r 14 gêm ddwytha a hynny wedi iddynt gollu tair gêm gynta'r tymor. Maent yn 4ydd yn y tabl ar hyn o bryd, sef 2 bwynt yn llai na'r 3ydd tîm.

Yn ddi-ffael, seren y tîm ydi

Derfel Roberts sydd wedi curo 13 gêm a cholli 2 a'r nesaf ato ydi Derek (TV) Griffiths (9 - 7) ac Emyr Roberts (6 - 6).

Mae un gem parau (doubles) pob wythnos ac yn rhain mae John Baston a Maldwyn wedi curo'r 7 gêm dwytha a dim ond wedi colli 2 drwy'r tymor.

Y gweddill o'r garfan ydi Heddwyn Morris, Gareth (Post) Hughes, George Owen, Denzil Jones, Brian Owen a Gareth (Saer) Jones.

Dewch draw i Parc Villa am ddau o'r gloch ar ddydd Mawrth i gefnogi'r hogia. Hefyd, bydd croeso i aelodau newydd ymuno â'r tîmau y tymor nesaf.



Maldi Pritch y capten llwyddiannus

Pencampwraig y Dŵr

Mae geneth ifanc o'r dyffryn yn prysur wneud enw iddi'i hun yn genedlaethol fel nofwraig arbennig. Disgybl Blwyddyn 9 yn Ysgol Dyffryn Ogwen yw Catherine Roberts, Glanogwen, ond, yn ogystal â'i gwaith ysgol, mae wedi cymryd rhan mewn llawer o chwaraeon, gan gynnwys gymnasteg a nofio. Ond yn y dŵr y mae'n rhagori, a hynny'n rhagori go iawn, ac ar nofio yn unig y mae'n canolbwyntio yn awr.

Dyma rai o lwyddiannau Catherine yn y pwll eleni yn unig

Ionawr - cyntaf drwy Gymru ar y 100m Pili Pala yng Gala Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Chwefror 1af 100m pili pala a zil ar 200m pili pala Cystadleuaeth Burns yn Sheffield,

Chwefror eto Gala rhanbarth gogledd Cymru Daeth Catherine yn 1af ar 100m pili pala, zil ar 200m y 'medley' Unigol (sef 50m bob strôc), a chafodd fedal efydd ar 200m 'breaststroke'.

Mai - Medal efydd mewn gala yn Lerpwl ar 100m pili pala.

Mis Mai eto - Bu'n cystadlu ynn Nghaerdydd mewn gala agored i bawb o Brydain, a llwyddodd i gyrraedd rownd derfynol y 100medr a'r 200 medr pili pala, gan gystadlu yn erbyn y goreuon drwy

Brydain. Gorffennodd yn 6ed ar y 200 a 8fed ar y 100.

Gorffennaf - mewn Gala yn Llandudno i ymarfer at y Gala genedlaethol enillodd Catherine ddwy fedal aur, yn y cystadlaethau 100m pili pala a'r 100m



Catherine yn cael ei chyflwyno gyda'i medal arian gan Bencampwr Paralympaidd y Byd o gemau Rio de Janeiro 2016. Yn fwy na hynny, mae hi wedi ennill 18 o fedalau i gyd.

rhydd, a dwy fedal efydd yn y cystadlaethau 100m broga a 100m cefn.

Dechrau'r haf - Gala Genedlaethol Cymru yn Abertawe, cafodd Catherine zil mewn gala agored drwy Gymru gyfan a thu hwnt,

Mae Catherine bellach yn cael ei hystyried yr ail orau ail trwy Gymru gyfan yn ei hoedran ar y 100m pili pala, a hi yw'r cyntaf ar ar restr goreuon y 200m pili pala.

Mae Catherine wedi cael ei dewis i gynrhycholi Cymru mewn gala yn Sheffield mis Hydref.

Llongyfarchiadau mawr i Catherine ar ei llwyddiant ysgubol, am am ddod a chlod iddi ei hun, ei theulu, a Dyffryn Ogwen i gyd. Mae'n amlwg fod gan Catherine dalent fawr iawn, ond mae'n gweithio'n galed dros ben hefyd i adeiladu ar y dalent hon. Prawf o hynny yw ei bod yn gorfod codi am 5 y bore, bedwar bore'r wythnos, er mwyn cael gwersi nofio ac ymarfer am 6 y bore, cyn dechrau ar ddiwrnod o waith ysgol. Gwaith caled a dyfal-barhad yn unig sy'n dod â llwyddiant go iawn. Da iawn ti, Catherine. Rydym yn dymuno bob hwyl iti yn Sheffield, ac ym mhob cystadleuaeth arall yn y dyfodol. Edrychwn ynlaen i weld mwy o dy hanes ar dudalennau'r Llais, ac yn y wasg genedlaethol, am flynyddoedd i ddod.